



Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

Arolwg Busnesau Gwledig

2013

RHAGFYR 2013



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Tabl Cynnwys

Adran 1 Cyflwyniad	4
Adran 2 Methodoleg	5
2.1 Sail yr Arolwg	5
2.2 Amcanion Ymchwil	5
2.3 Dyluniad yr Holiadur	5
2.4 Llythyr cyflwyno	5
2.5 Cynnwys yr holiadur	6
2.6 Creu'r Sampl ar gyfer yr Arolwg	6
2.7 Gweinyddu'r Arolwg	8
2.8 Ymatebion yr Arolwg	8
2.9 Dadansoddi'r Data	8
Adran 3: Canlyniadau	8
3.1 Proffil o'r Busnes a'r Perchennog	9
3.2 Ynglŷn â'r Gweithwyr	14
3.3 Recriwtio a Hyfforddi Gweithwyr	15
3.4 Gweithrediad a Strategaeth Busnes	20
3.5 Manteision a chryfderau tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau	25
3.6 Anfanteision a bygythiadau tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau	27
3.7 Argraffiadau yn ymwneud â Chymorth Busnes	29
3.8 Argraffiadau ynglŷn â Llywodraeth Cymru a chymorth busnes a datblygiad economaidd	30
3.9 Gwybodaeth Ariannol	31
3.10 Newidiadau mewn gweithgareddau busnes	34
3.11 Busnes a'r Amgylchedd	38
3.12 Sylwadau cyffredinol gan fusnesau	42
Adran 4: Crynodeb a Diweddsglo	46
4.1 Cyflwr gweithgareddau busnes heblaw ffermydd yng Nghymru wledig	46
4.2 Agweddau ac argraffiadau perchnogion busnesau yng Nghymru wledig mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig	48
4.3 Sylwadau Terfynol – Y Dirwasgiad a'i effeithiau	50

Rhestr Tablau

Tabl 3.1: Mathau o fusnes yn ymateb	10
Tabl 3.2: Proffiliau oedran perchnogion busnesau wedi'u cymharu	12
Tabl 3.3: Cymwysterau perchnogion busnesau.....	13
Tabl 3.4: Pwysigrwydd hyfforddiant busnes ffurfiol	13
Tabl 3.5: Nifer y Gweithwyr fesul Categori	15
Tabl 3.6: Dulliau a Ddefnyddiwyd i Recriwtio Gweithwyr	16
Tabl 3.7: Ansawdd asiantaethau recriwtio, ymgeiswyr a hyfforddiant sgiliau	18
Tabl 3.8: Cynlluniau busnes	20
Tabl 3.9: Y Rhyngrwyd a Band eang	20
Tabl 3.10: Graddio Band eang	21
Tabl 3.12: Newidiadau yn nefnydd y Rhyngrwyd.....	22
Tabl 3.13: Dulliau a Ddefnyddiwyd i hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau	23
Tabl 3.14: Pellterau cwsmeriaid o fusnesau gwledig	23
Tabl 3.15: Pellterau cyflenwyr o fusnesau gwledig	24
Tabl 3.16: Gwerthiannau a gynhyrchwyd gan Fathau o Gwsmer	25
Tabl 3.17: Barn ar Gyngor a Chyngor Busnes.....	29
Tabl 3.18: Argraffiadau o bolisiau Llywodraeth Cymru	31
Tabl 3.19: Cofrestru ar gyfer TAW.....	32
Tabl 3.20: Trosiant Blynnyddol.....	32
Tabl 3.21: Newid mewn Trosiant Blynnyddol.....	33
Tabl 3.22: Newidiadau mewn Elw Blynnyddol	33
Tabl 3.23: Elw fel Canran o Drosiant.....	33
Tabl 3.24: Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes	34
Tabl 3.25: Rhwyddineb diogelu Buddsoddiad ar gyfer y busnes	36
Tabl 3.26: Ailgylchu gan fusnesau.....	38
Tabl 3.27: Cyfran y Busnesau'n cymryd rhan mewn Mentrau Amgylcheddol	39
Tabl 3.28: Defnyddio Ynni ymhlith Busnesau	40
Tabl 3.29: Mae rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes yn ormodol.....	41
Tabl 3.30: Dylai fod cymhellion ariannol ar gyfer arferion busnes sy'n ecologyfeillgar.....	41

Adran 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar ganlyniadau arolwg o fusnesau yng Nghymru wledig a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn ystod 2013. Arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o Fusnesau Gwledig 2013 yw'r trydydd i'w gynnal, yn dilyn arolygon busnes 2004, 2007 a 2010. Er bod rhai newidiadau i'r cwestiynau ar gyfer arolwg 2013, roedd y newidiadau hyn yn fân. Cofnodir y rheini yn Adran 2.5.

Pwynt pwysig yw bod y dirwasgiad economaidd, a drafodwyd yn adroddiad 2010, wedi parhau i effeithio'r DU. Er bod yna ddadleuon technegol o ran yr hyn a ystyrir yn ddirwasgiad, roedd ymatebwyr yn canfod bod yr economi mewn dirwasgiad.¹ O ganlyniad, trwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at y dirwasgiad a'i effeithiau, ac mae trafodaeth bellach arni yn yr adran Crynodeb a Diweddsglo.

Roedd gan arolwg 2013 darged ymateb o 1,000 o fusnesau gwledig, a oedd yr un peth â'r arolygon blaenorol. Fel yn yr arolygon blaenorol, aethpwyd y tu hwnt i'r targed hwn, gydag 1,583 o ymatebion.

O ran methodoleg, bu'r tri arolwg yn debyg: anfonwyd holiaduron drwy'r post ynghyd â llythyron cyflwyno, yn Gymraeg a Saesneg, at fusnesau yng Nghymru wledig ac anfonwyd llythyrau atgoffa ar ôl cyfnod. Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus ohono yn 2010, ac o gofio'r cynnydd yn nefnydd y Rhyngrwyd, yn 2013 cynigwyd opsiwn o ymateb ar-lein drwy wefan Arsyllfa Wledig Cymru i fusnesau.

1.2 Mae'r diffiniad o Gymru wledig a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn yn dilyn y diffiniad a ddefnyddir yn Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Gynlluniau Datblygu Gwledig drafft ar gyfer 2007 – 2013. O dan y diffiniad hwn mae Cymru'n cael ei dosbarthu yn:

- Wardiau Gwledig – proffil gwledig yn unig neu'n bennaf neu broffil poblogaeth tref fach.
- Canolfannau Gwasanaethau - ward y mae tref fach neu fawr yn ei dominyddu, sydd hefyd â naill ai ardal wledig neu gysylltiadau cryf ag ardaloedd gwledig amgylchynol.
- Ward Gartref - proffil poblogaeth tref fawr ond lle mae'r dref hon yn chwarae rhan allweddol yn yr ardaloedd gwledig amgylchynol.
- Ward anghymwys - proffil poblogaeth tref fawr yn unig heb gysylltiadau neu â chysylltiadau cyfyngedig yn unig ag ardaloedd gwledig.

1.3 Mae pedair adran i'r adroddiad. Ar ôl y rhagymadrodd hwn, mae Adran 2 yn nodi sail resymegol ac amcanion yr adroddiad, gan ddisgrifio, yn fanylach, y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data. Mae Adran 3 yn dadansoddi'r data. Yn olaf, ceir crynodeb o'r adroddiad ynghyd â diweddsglo yn Adran 4.

¹ Fel arfer diffinnir dirwasgiad fel crebachiad mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) am chwe mis (dau chwarter yn olynol) neu'n hirach.

Adran 2 Methodoleg

2.1 Sail yr Arolwg

Cafodd Arolwg Busnesau 2013 ei ddylunio fel rhan annatod o raglen waith Arsyllfa Wledig Cymru, a'r sail resymegol sylfaenol oedd y byddai'r arolwg yn ategu ac yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru, gan gynnwys y tri Arolwg Busnesau Gwledig blaenorol yn 2004, 2007 a 2010. Yn ogystal, mae'r cysondeb a geir wrth ymatebwyr o'r arolygon blaenorol a gytunodd y gallem ailgysylltu â hwy yn cynnig y posibilrwydd o gael data hydredol.

2.2 Amcanion Ymchwil

Amcanion Ymchwil yr arolwg oedd:

1. Archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.
2. Archwilio a mesur agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.
3. Darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol.
4. Nodi ac archwilio unrhyw newidiadau cymdeithasol, economaidd neu bolisi a allai fod wedi effeithio ar fusnesau yng Nghymru wledig.

2.3 Dyluniad yr Holiadur

Roedd holiadur 2013 yn seiliedig ar yr holiadur ar gyfer Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2010, gydag ychydig o addasiadau. Gwnaed yr addasiadau hyn yn dilyn adolygiad o Arolwg Busnes 2010 a'r dadansoddiad o ymatebion 2010, a thrafodaeth a oedd yn cynnwys tîm Arsyllfa Wledig Cymru a'u cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Un ystyriaeth bwysig wrth ddylunio oedd hyd yr holiadur a faint o amser a gymerai i'w lenwi. Gall holiadur sy'n ymddangos yn rhy hir rwystro ymatebwyr posibl rhag ymateb. Cafodd yr holiadur ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer y broses 'Cymeradwyo Arolygon Ystadegol'.

2.4 Llythyr cyflwyno

Wrth ei bostio at y busnesau, anfonwyd llythyr cyflwyno gyda'r holiadur. Amlinellodd y llythyr hwn waith Arsyllfa Wledig Cymru a'i chysylltiad â Llywodraeth Cymru, gan bwyntio at wefan Arsyllfa Wledig Cymru ar gyfer rhagor o wybodaeth. Pwysleisiodd y llythyr mai mater gwirfoddol oedd llenwi'r holiadur; y câi'r holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol; ac na fyddai enwau'r ymatebwyr yn cael eu datgelu. Gofynnwyd i'r holiadur gael ei lenwi, lle bynnag y byddai modd, gan berchennog y busnes neu ar ei ran. Ar gyfer arolwg 2013, dywedwyd wrth ymatebwyr mai ei lenwi drwy wefan Arsyllfa Wledig Cymru oedd yr opsiwn a ffeifrir. Darparodd y llythyr cyflwyno gyfarwyddiadau ar gyfer yr opsiwn hwn, gan gynnwys cysylltiadau i adrannau Cymraeg a Saesneg gwefan Arsyllfa Wledig Cymru.²

² Llenwi ar-lein oedd yr opsiwn a ffafriwyd oherwydd ei fod yn hwyluso mewnbynnu data o'r holiadur yn gyflymach ac yn llai llafurus i'r 'Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol' [SPSS].

Cynhyrchwyd y llythyr cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau A a B yn eu trefn.

2.5 Cynnwys yr holiadur

Roedd yr holiadur terfynol yn cynnwys wyth adran. Er bod y mwyafrif o'r cwestiynau'n gofyn am nodi tic neu rif, gofynnwyd am rywfaint o ddata ansoddol hefyd. Defnyddiai rhai o'r cwestiynau raddfeydd pum-pwynt Likert³, sy'n hwylus wrth fewnbynnu a dadansoddi. Yn nisgrifiadau amlinellol y cwestiynau sy'n dilyn, pan fo'n briodol, dangosir y gwahaniaethau rhwng holiaduron 2013 a 2010.

Cynhyrchwyd yr holiadur yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau C a D yn eu trefn. Cododd yr adran gyntaf gwestiynau am yr ymatebwyr a'u busnesau, a chododd yr ail adran gwestiynau am eu gweithwyr. Yn y drydedd adran gofynnwyd i ymatebwyr am recriwtio a hyfforddi gweithwyr, ac yma codwyd cwestiynau ychwanegol o ran perchnogion a gweithwyr yn ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Cododd y bedwaredd adran gwestiynau am weithgareddau a strategaethau busnes, gan gwmpasu cynlluniau busnes, cyfryngau hysbysebu, gweithgareddau noddi, rhwydweithiau busnes a chanfyddiadau ymatebwyr o redeg busnes mewn lleoliad gwledig. Cododd adran pump gwestiynau am ansawdd y gefnogaeth a ddarperir gan asiantaethau gwahanol, ymchwiliodd adran chwech i newidiadau diweddar mewn gweithgareddau busnes, canolbwyntiodd adran saith ar faterion amgylcheddol ac adran wyth ar wybodaeth ariannol. Rhoddwyd lle hefyd i ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol ac er mwyn nodi a oeddent yn fodlon inni ailgysylltu â hwy ar gyfer ymchwil yn ydyfodol.

2.6 Creu'r Sampl ar gyfer yr Arolwg

Er mwyn sicrhau cysondeb ag Arolygon Busnesau 2004, 2007 a 2010, a wnaeth ddenu 1,008, 1,034 a 1,308 o ymatebion yn y drefn honno, roedd gan yr arolwg hwn darged o sicrhau ymateb gan 1,000 o fusnesau. Fel y digwyddodd, llwyddodd arolwg 2013 ddenu 1,583 o ymatebion. Roedd i'r boblogaeth a dargedwyd ddwy elfen:

1. Ymatebwyr arolwg 2010 a gytunodd y gallem ailgysylltu â hwy. Roedd 530 o'r rhain.
2. Ymatebwyr newydd, y cafwyd eu manylion cyswllt gan frocer rhestrau masnachol.⁴

³ Ar arolwg neu holiadur, mae graddfa Likert ar ffurf graddfa o ymatebion i gwestiwn. Gall ymatebion o'r fath gynnwys:

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

⁴ Mae gan gronfa ddata busnes Data HQ ddwy elfen: Data Tŷ'r Cwmnïau Dun & Bradstreet a data 118 Information Services (cwmnïau llai o faint a chwmnïau nad ydynt yn gyfyngedig). Ymchwilir a chynhelir y gronfa ddata hon drwy chwe chanolfan alwadau. Mae dros ddwy filiwn o ddiweddariadau dros y ffôn bob blwyddyn, ac ychwanegir holl ddiweddariadau a ffeiliadau Tŷ'r Cwmnïau i'r gronfa ddata yn ddyddiol. Mae hyn yn cynnwys dileu cwmnïau sydd bellach wedi rhoi'r gorau i fasnachu a chwmnïau newydd. Er mwyn cynnal y gronfa ddata, mae Data HQ yn diweddarau fersiwn ei hun o'r gronfa ddata bob pedair wythnos. Mae gan y gronfa ddata oddefiant o bump y cant ar gyfer gwallau yn y data. Dewiswyd busnesau ar hap ar gyfer yr arolwg o sampl gynrychioliadol.

Yr elfennau data a gynhwyswyd oedd:

- Enw'r busnes
- Cyfeiriad
- Enw personol y cyswllt
- Rhif ffôn
- Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC]
- Gweithgarwch craidd y busnes
- Nifer y gweithwyr
- Trosiant

Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynrychioliadol, cafodd sampl haenedig o'r boblogaeth darged ei chreu fel a ganlyn.

1. Cafodd y rhestr o Sectorau Cod Post sy'n ffurfio'r Gymru wledig ei llunio.⁵
2. Cafodd cyfanswm nifer y busnesau yn y Sectorau Cod Post gwledig hyn ei gyfrifo.
3. Cafodd nifer y busnesau ym mhob un o'r Sectorau Cod Post ei gyfrifo.
4. Drwy ddefnyddio'r ffigurau yn (2.) a (3.) uchod, cafodd nifer y busnesau ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo fel canran o'r cyfanswm o fusnesau gwledig. Y canrannau hyn yw'r gyfran wirioneddol o'r cyfanswm y mae ei hangen ar gyfer sampl haenedig.
5. Er mwyn integreiddio'r 530 o 'ail-gysylltiadau posibl' o'r arolwg blaenorol yn 2010:
 - a) Cawsant eu grwpio yn ôl Sector Cod Post a chafodd y cyfanswm ym mhob Sector Cod Post ei gyfrifo.
 - b) Y cyfanswm o fewn pob Sector Cod Post yn y boblogaeth wreiddiol (3.) llai cyfanswm yr 'ail-gysylltiadau posibl' yn y Sector Cod Post hwnnw (5a.) ei gyfrifo.
 - c) Cafodd y nifer (5b.) ei fynegi fel canran o gyfanswm y busnesau gwledig.
6. Rhoddodd y brocer data masnachol sampl ar hap o 10,000 o fusnesau, gan ddefnyddio cyfrannau (5c.) ar gyfer y Sectorau Cod Post gwledig.⁶
7. Pan gafwyd y gronfa ddata hon, cafodd y 530 o 'ail-gysylltiadau posibl' o arolwg 2010 eu hychwanegu ati.
 - a) Daeth hyn â'r niferoedd a'r cyfrannau yn ôl i'r cyfrannau gwirioneddol yr oedd eu hangen ar gyfer sampl haenedig.
 - b) Gan fod y 530 o 'ail-gysylltiadau posibl' wedi'u sicrhau o sampl ar hap, ac am eu bod yn ymatebion ar hap, cafodd yr elfen ar hap ei chadw.⁷

⁵ Mae Cod Post yn cynnwys cyfarwyddiadau llwybro er mwyn dosbarthu llythyrau, ac mae'n gallu nodi lleoliad 15 cyfeiriad ar gyfartaledd. Mae yna oddeutu 1.75 miliwn o godau post gweithredol yn y DU. Mae pob cod post yn cynnwys pedair elfen ddaearyddol amnyth. Gan gymryd CF10 3WA fel enghraifft:

Ardal cod post (CF) – yr elfen fwyaf - mae yna 124 yn y DU

Rhanbarth cod post (CF10) – oddeutu 20 ym mhob ardal cod post

Sector cod post (CF10 3) – wedi'i lleoli o fewn y rhanbarth cod post – oddeutu 3,000 o gyfeiriadau

Uned cod post (CF10 3WA) – oddeutu 15 cyfeiriad

⁶ Lluniwyd matrices gan Arsyllfa Wledig Cymru, wedi'i haenu yn ôl y math o fusnes a'r lleoliad, ac wedi'i seilio ar ddata o arolygon blaenorol ac ystadegau swyddogol. Dangosodd y matrices y nifer o fusnesau a oedd angen ym mhob haen er mwyn cael sampl gynrychioliadol o fusnesau yng Nghymru wledig.

⁷ Defnyddiwyd ymatebwyr arolwg 2010 a gytunodd i gymryd rhan mewn arolwg 2013 fel sampl ail-gysylltu. Cymharwyd y sampl hon â'r matrices (gweler Troednodyn 6). Dewiswyd cysylltiadau ychwanegol ar hap o restr a ddarparwyd gan Data HQ er mwyn cynyddu'r sampl ac i wneud yn iawn ar gyfer athreuliad yn y sampl ail-gysylltu. Defnyddir strategaeth samplu sy'n debyg ar y cyfan yn yr

2.7 Gweinyddu'r Arolwg

Anfonwyd y post cyntaf yn ail wythnos mis Mawrth 2013.⁸ Cafodd pob darpar ymatebydd busnes becyn a oedd yn cynnwys:

- Llythyr cyflwyno Saesneg
- Llythyr cyflwyno Cymraeg
- Holiadur Saesneg
- Holiadur Gymraeg
- Amlen 'ymateb busnes'.

Gofynnodd y llythyr cyflwyno gyda'r post cyntaf i'r holiadur gael ei lenwi erbyn y 15fed o Ebrill 2013, gan ganiatáu rhwng dwy a thair wythnos i'r ymatebwyr lenwi'r holiadur.

Cafodd ail becyn, fel uchod ond gyda llythyr atgoffa, ei anfon yn ystod wythnos gyntaf mis Mai 2013 at y busnesau hynny a oedd heb ymateb. Estynnodd y llythyr ymateb y dyddiad ar gyfer dychwelyd yr holiadur hyd at 3ydd o Fehefin 2013 gan bwysleisio gwerth y data ymchwil o fusnesau gwledig. Cafodd ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Ceir copïau yn Atodiadau D ac E yn eu trefn.

2.8 Ymatebion yr Arolwg

Daeth cyfanswm o 1,583 o ymatebion i law. O'r rhain, cwblhawyd 80 ar-lein: cyfradd ymateb ar-lein o bump y cant. Roedd ymatebwyr yn cynnwys busnesau a gymerodd rhan mewn arolwg blaenorol y cysylltwyd â hwy eto ar gyfer arolwg 2013, yn ogystal â busnesau y cysylltwyd â hwy am y tro cyntaf. I grynhoi, o restr posibl o 10,530 o fusnesau (10,000 yn newydd a 530 yn ail-gysylltiadau) derbyniwyd 1,583 o ymatebion (1,382 yn newydd a 201 yn ail-gysylltiadau) ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer dadansoddi data yn dilyn hyn.

2.9 Dadansoddi'r Data

Cafodd yr ymatebion i'r holiaduron eu bwydo i'r 'Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol' [SPSS] i'w dadansoddi. Canolbwyntiodd ein dadansoddiad ar y cyfrannau o ymatebwyr a ymatebodd mewn ffyrdd gwahanol i'r amryw gwestiynau.

Mae'r dadansoddiad hwn yn adlewyrchu'r mathau o gwestiynau a ofynnwyd: mae rhywfaint o'r dadansoddi'n ymwneud â data bywgraffyddol a hanesyddol; rhywfaint â chanlyniadau mesuradwy; a rhywfaint ag ymatebion ansoddol.

Adran 3: Canlyniadau

Lle'r oedd yn briodol, gwnaed cymhariaeth rhwng canlyniadau arolygon Busnesau Gwledig 2010 a 2007 Arsyllfa Wledig Cymru. Er mwyn sicrhau ei fod yn weladwy, lliwiwyd data 2013 yn **goch lle cymharir y data hwn â data o flynyddoedd eraill**.

arolwg blynyddol o'r boblogaeth. Y gwahaniaeth yw mai'r aelwyd yw'r uned samplu yn hytrach na busnesau.

⁸ Er mwyn defnyddio'r adnoddau yn y modd gorau posibl, cafodd tasgau, megis llungopïo a llenwi amlenni, ynghyd â phostio'r arolwg eu contractio allan.

3.1 Proffil o'r Busnes a'r Perchennog

Roedd adran 1 o'r holiadur yn galw am wybodaeth sylfaenol am y busnes, megis y gweithgaredd craidd, a gwybodaeth fywgraffyddol am y perchennog, gan gynnwys cymwysterau a hyfforddiant busnes.

Y Math o Fusnes

Fel rhan o'r arolwg hwn, gofynnwyd i ymatebwyr ddisgrifio'u busnes gan ddefnyddio categorïau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Er bod yr ymatebion hyn yn cynnwys hunan-ganfyddiad ymatebwyr, maent yn egluro cefndir yr ymatebwyr y seiliwyd y dadansoddiad canlynol arno. Mae Tabl 3.1 yn defnyddio categorïau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn cymharu cyfran yr ymatebwyr i arolygon busnes Arsyllfa Wledig Cymru yn 2010 a 2013. Mae'r Tabl hwn yn cymharu cyfran y mentrau sydd wedi'u seilio ar TAW a/neu Dalu Wrth Ennill yng Nghymru ar gyfer 2013⁹, a hefyd dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Fusnesau yng Nghymru, ac mae'n cynnwys amcangyfrifon ar gyfer y busnesau lleiaf sy'n gweithredu islaw'r trothwy TAW.¹⁰

⁹ Cymerwyd ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR), ac felly o setiau data gweinyddol. Mae'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau yn cynnwys data am fasnachwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW; cyflogwyr yn gweithredu cynllun Talu Wrth Ennill; busnesau corfforaethol a gofrestrwyd gyda Thŷ'r Cwmnïau; Ffermydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; a'r Adran Gyllid a Phersonél, Gogledd Iwerddon.

¹⁰ Mae data Llywodraeth Cymru eto wedi'i seilio ar giplun o setiau data'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, ond fe'i haddaswyd ar gyfer tuedd y sefydliad hwnnw i eithrio nifer mawr o'r cwmnïau lleiaf, gan wneud y data'n fwy perthnasol i Gymru felly.

Tabl 3.1: Mathau o fusnes yn ymateb

Math o fusnes	Arolwg 2010	Arolwg 2013	MENTRAU SYDD WEDI'U SEILIO AR TAW a/neu DALU WRTH ENNILL yn 2013 ¹¹		Dadansoddiad maint busnesau yn ôl diwydiant 2013 ¹²	
	%	%		%		%
Amaeth, hela a choedwigaeth	7	4	Amaeth, coedwigaeth a physgota	28	Amaethyddiaeth	13
Mwyngloddio a chwarelu	1	<1	Cynhyrchiant	5	Cynhyrchiant	5
Gweithgynhyrchu	11	8				
Cyflenwi trydan, nwy a dŵr	1	3				
Adeiladu	12	12	Adeiladu	11	Adeiladu	18
Cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur, a beiciau modur a nwyddau personol ac i'r tŷ	2	20	Crefftiau Modur, Cyfanwerthu a Manwerthu	15	Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai, bwyd a chyfathrebu	23
Gweithgareddau gwasanaethau llety a bwyd	14	18	Gwasanaethau llety a bwyd	9		
Cludiant, storio a chyfathrebu	5	4	Cludiant a Storio	3		
Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant	4	2	Ariannol ac yswiriant	1		
Gweithgareddau gwerthu tir	5	2	Eiddo	2	Gwasanaethau busnes ac ariannol	20
Gwybodaeth a chyfathrebu		1	Gwybodaeth a chyfathrebu	3		
Gweithgareddau gwasanaeth cymorth a gweinyddol		1	Gwasanaethau cymorth a gweinyddu busnes	6		
Addysg	4	1	Addysg	1	Addysg ac iechyd yn y sector preifat	10
Gweithgareddau gwaith cymdeithasol ac Iechyd Pobl	10	2	Iechyd	4		
Y celfyddydau, adloniant a hamdden		5	Y celfyddydau, adloniant, hamdden a	5	Gwasanaethau eraill	10

¹¹ Ffynhonnell: UK Business: Activity, Size and Location, 2013, ONS. (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/bus-register/uk-business/2013/index.html> (dyddiad cyrchwyd 10/03/14))

¹² Ffynhonnell: Ystadegau am Gymru [StatsCymru] (2013) *Dadansoddiad o Faint Busnesau*, Llywodraeth Cymru: Caerdydd. (<https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data> (dyddiad cyrchwyd 10/03/14))

			gwasanaethau eraill			
Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol		6	Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	8		
Gweithgareddau eraill ym maes gwasanaethau		11	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	<1		

Gan fod data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eithrio nifer mawr o'r busnesau lleiaf, nid yw'n bosib cymharu'r data hwn yn uniongyrchol â data'r sefydliad hwnnw. Mae canlyniadau arolwg Arsyllfa Wledig Cymru yn fwy tebygol o fod yn gyson ag ystadegau Llywodraeth Cymru gan fod y rheini'n cynnwys busnesau bach a microfusnesau nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW. Yn ogystal, mae Tabl 3.1 yn cymharu data ar gyfer mathau o fusnesau sydd wedi eu cyfuno mewn arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru gyda data ar gyfer is-deipiau o fusnesau a nodwyd mewn arolygon Arsyllfa Wledig Cymru gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn cyfyngu ar faint o groesgyfeirio y gellid gwneud rhwng ystadegau swyddogol a'r ymateb i'r arolwg a drafodir fan hyn.

Cyn dehongli'r tabl hwn, mae'n angenrheidiol tynnu sylw at wahaniaethau rhwng yr arolwg a drafodir yma, a ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf, ni thargedwyd busnesau fferm yn y sampl ar gyfer yr arolwg, a dyma'r rheswm dros eu cynrychiolaeth isel.¹³ Hefgorwyd ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau a ariennir yn bennaf gan arian cyhoeddus ond a oedd o bosib wedi eu rhestru fel busnesau. Ymddengys i wasanaethau busnes ac ariannol gael eu tangynrychioli, ond mae llawer o'r rhain (95%) yn microfusnesau ac o bosib felly yn unigolion sy'n gweithredu fel cwmnïau. Mae'n bosib y cafodd gwahaniaethau eraill eu hachosi gan wallau categoraidd o safbwynt y busnes.

Oherwydd natur oddrychol dosbarthu, dylid gwneud cymariaethau eang a gofalus rhwng ymatebion i'r arolwg a ffynonellau data allanol. Er hynny, mae'r dosbarthiad yn ddefnyddiol er mwyn deall y mathau o fusnesau sy'n ymateb i'r arolwg ac mae'n helpu i esbonio ymatebion i gwestiynau ychwanegol yn yr arolwg. Felly, mae'r arolwg wedi'i seilio ar fusnesau sy'n tueddu at gyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai, bwyd a chyfathrebu (42% o arolwg 2013 Arsyllfa Wledig Cymru o gymharu â 24% y Swyddfa Ystadegau Gwladol a 23% Llywodraeth Cymru); 'gwasanaethau eraill' (22% Arsyllfa Wledig Cymru, 14% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 10% Llywodraeth Cymru), amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (4% Arsyllfa Wledig Cymru, 28% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 13% Llywodraeth Cymru); a chynhyrchiant (12% Arsyllfa Wledig Cymru, 5% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 5% Llywodraeth Cymru). Cafodd arolwg Arsyllfa Wledig Cymru ei ddylanwadu llai gan fusnesau sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu (12% Arsyllfa Wledig Cymru, 11% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 18% Llywodraeth Cymru); gwasanaethau ariannol a busnes (7% Arsyllfa Wledig Cymru, 12% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 20% Llywodraeth Cymru); ac addysg ac iechyd yn y sector preifat (3% Arsyllfa Wledig Cymru, 5% Swyddfa Ystadegau Gwladol a 10% Llywodraeth Cymru).

¹³ Am fwy o wybodaeth am y pwnc hwn gweler adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru - Arolwg Aelwydydd Fferm yng Nghymru 2010.

Dechrau'r Busnes

Y flwyddyn gynharaf y soniwyd amdani ar gyfer dechrau busnes yn yr arolwg oedd 1493. Roedd tri busnes wedi dechrau yn 2013.¹⁴

- Roedd pump y cant (75 o fusnesau) wedi dechrau ers yr arolwg diwethaf yn 2010.
- roedd 29 y cant wedi cael eu sefydlu ers 2000.
- roedd 20 y cant wedi cael eu sefydlu yn y 1990au.
- roedd 34 y cant wedi cael eu sefydlu rhwng 1950 a 1989.
- Pedwar y cant rhwng 1900 a 1949.
- Roedd tri y cant yn dyddio'n ôl cyn yr 20^{fed} ganrif.
- Ni ddarparwyd y data hwn gan 10 y cant o ymatebwyr.

O ran sut roedd y perchnogion wedi dechrau ymwneud â busnes: roedd 58 y cant wedi dechrau'r busnes; roedd 13 y cant wedi cymryd yr awenau oddi wrth aelod o'r teulu; roedd 22 y cant wedi prynu'r busnes; ac roedd saith y cant wedi ymwneud â'r busnes drwy ddulliau eraill nas nodwyd. Yn 91 y cant, roedd y rhan fwyaf o fusnesau a arolygwyd wedi eu lleoli yng Nghymru erioed. O'r rheini a oedd wedi symud i Gymru wledig, roedd y rhan fwyaf wedi symud o Loegr yn hytrach nag ardaloedd trefol yng Nghymru. Roedd y cyfrannau ar gyfer perchnogaeth a lleoliad hanesyddol yn debyg i'r rhai ar gyfer 2010.

Rhyw ac Oedran perchnogion busnesau

Yn 2013, roedd 67 y cant o berchnogion busnesau'n wryw a 30 y cant yn fenyw – ni chafwyd ymateb gan dri y cant. Roedd hyn yn dangos parhad y newid graddol yn y gymhareb gwrywod/menywod tuag at fwy o berchnogion yn fenywod o gymharu ag arolygon blaenorol: yn 2010, roedd 72 y cant yn wrywod a 28 y cant yn fenywod, tra yn 2007 roedd 79 y cant o berchnogion busnesau'n wrywod a 21 y cant yn fenywod.¹⁵

Mae Tabl 3.2 yn cymharu'r proffiliau oedran yn 2013 gydag arolygon 2007 a 2010. Mae'n dangos bod perchnogion busnesau yn tueddu i fod yn hŷn. Roedd yna lai yn y grŵp ifanc (i fyny i 39) a thra gwelwyd gostyngiad o bedwar pwynt canran hefyd yn y grŵp oedran 40-64, roedd nifer y perchnogion hynny a oedd dros 65 wedi cynyddu chwe phwynt canran: h.y. perchnogion a oedd yn y grwpiau oedran ifanc a chanolig o'r blaen a symudodd i'r grŵp hynaf. Ymddangosai fod y newid hwn o ran oedran yn cyflymu: h.y. roedd yn fwy amlwg rhwng 2010 a 2013 nag yr oedd rhwng 2007-2010.

Tabl 3.2: Proffiliau oedran perchnogion busnesau wedi'u cymharu

Ystod oedran	2007	2010	2013
	%	%	%
Hyd at 39	10	10	8
40 – 64	71	73	69
65 ac yn hŷn	17	16	22

¹⁴ Canfu'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau [BIS]; Arolwg Busnesau Bach 2012; Cyflogwyr BBaCh; bod 20 y cant o BBaCh yn llai na chwe blynedd oed; roedd 16 y cant yn 6-10 mlynedd; roedd 23 y cant yn 11-20 mlynedd; a 41 y cant dros 20 mlynedd oed. Mae'r arolwg hwn yn un ledled y DU.

¹⁵ Canfu Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau *ibid.*, a oedd wedi edrych ar reolwyr, bod 49 y cant o BBaCh yn cael eu rheoli'n gyfan gwbl gan ddynion. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd yng nghyfrannau'r busnesau a reolwyd gan un fenyw, neu a reolwyd yn gyfartal gan wrywod a menywod ers arolwg yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn 2010 (gweler 2012: 25, 26).

Cymwysterau'r perchnogion

Mae Tabl 3.3 yn dangos cymwysterau perchnogion busnesau yn yr arolwg, gan gymharu'r canlyniadau â'r arolygon blaenorol.

Tabl 3.3: Cymwysterau perchnogion busnesau

	2004	2007	2010	2013
	%	%	%	%
Gradd Uwch / NVQ Lefel 5	9	17	17	13
Gradd / NVQ Lefel 4	21	21	22	22
Safon Uwch / NVQ Lefel 3	16	11	14	15
Lefel O /TGAU / NVQ Lefel 1 –2	22	22	22	24
Dim	21	17	14	14
Arall	11	11	11	11

Dros y cyfnod o naw mlynedd a gwmpaswyd gan yr adroddiad mae yna wedi bod amrywiaethau. Ymddengys fod meddu ar radd uwch, a gyrhaeddodd ei uchafbwynt yn 2007 a 2010, wedi dechrau tueddu tuag i lawr. Roedd y gyfradd o ymatebwyr oedd â gradd a lefelau O/TGAU wedi aros yn gymharol gyson a thra bu gostyngiad bach yn 2007, gellid dweud yr un peth am lefelau A. Ymddengys fod y gostyngiad (gwelliant) yn y cyfrannau o berchnogion busnesau heb gymwysterau a welwyd yn 2010 wedi lefelu.¹⁶

Hyfforddiant Busnes Ffurfiol

Parhaodd y lefel isel o hyfforddiant busnes ymhlith perchnogion busnes, er roedd yna gynnydd bach o gymharu â 2010 i 27 y cant (o 25 y cant) yn y gyfradd o ymatebwyr a oedd gyda'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, ni ddychwelodd hyfforddiant busnes ffurfiol i'r 28 y cant a welwyd yn 2007, canran a ystyriwyd yn rhy isel ar y pryd.

Mae Tabl 3.4 yn dangos yr ymatebion yn 2013 i'r cwestiwn a ofynnwyd yn 2007 a 2010: "Pa mor gryf ydych chi yn cytuno neu yn anghytuno â'r gosodiad 'Mae hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig?'".

Tabl 3.4: Pwysigrwydd hyfforddiant busnes ffurfiol

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Anghytuno'n Gryf
	%	%	%	%	%
2007	10	15	40	25	10
2010	7	13	39	27	14
2013	8	10	47	23	12

¹⁶ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol [NOMIS] 2012 yn nodi bod y gyfran o'r gweithlu ledled Cymru heb gymwysterau yn 11.4 y cant yn Rhagfyr 2012.

Tra roedd y ddau ymateb 'anghytuno', gyda'i gilydd, wedi gostwng dau bwynt canran, roedd yr ymateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' wedi codi wyth pwynt canran ers 2010 – gan ddangos cynnydd mewn difaterwch. Gellid dadlau mai'r ymatebion pwysicaf oedd y rhai a oedd naill ai'n 'Cytuno' neu'n 'Cytuno'n gryf', lle, gyda'i gilydd, roedd yna ostyngiad o chwe phwynt canran o gymharu â 2010. Yn gyffredinol, ers arolwg 2007, mae'r canlyniadau yma'n tynnu sylw at ddiffyg gwerthfawrogi gwerth hyfforddiant busnes ffurfiol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y dylanwadwyd y gostyngiadau mewn gwerthfawrogi hyfforddiant busnes a welwyd yn arolwg 2013 gan y dirwasgiad. Mae hyfforddiant yn ddrud. Fel y mae'r dystiolaeth ansoddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dangos, roedd yna duedd tuag at oroesi yn hytrach nag ehangu ymhlith rhai busnesau.

Rhwydweithiau Busnes a Phroffesiynol

Roedd yna ostyngiad o chwe phwynt canran o gymharu â 2010 mewn aelodaeth sefydliadau masnach, busnes neu broffesiynol, gyda 45 y cant yn nodi eu bod yn aelodau yn 2013. O'r arolwg cyfan, roedd 38 y cant yn ystyried bod y sefydliadau hyn yn ddefnyddiol, tra bod gan 36 y cant ddim barn.

Roedd cwestiwn newydd ar gyfer arolwg 2013 yn ymwneud â Datblygiad Proffesiynol Parhaus [CPD]. Dros yr arolwg cyfan, roedd 14 y cant o berchnogion busnesau wedi ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac roedd gan 16 y cant o fusnesau weithwyr a oedd wedi ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

O ystyried bod 45 y cant o berchnogion busnes a ymatebodd yn aelodau o sefydliad masnach, busnes neu broffesiynol, ac mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn aml yn ofynnol ar gyfer cyrff proffesiynol, ymddengys fod y ffigurau ar gyfer ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn isel. Fodd bynnag, nid oedd yr holiadur yn edrych am aelodaeth benodol o gorff proffesiynol, a fyddai o bosibl wedi lliniaru'r ffigur ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan ddarparu data a oedd yn fwy dadlennol am y mathau o fusnesau a arolygwyd. Yn Nhabl 3.1, dim ond chwech y cant o'r busnesau a arolygwyd oedd yn y categori 'Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol': h.y. mathau o fusnesau a fyddai'n fwy tebygol o angen Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Felly, nid oedd y lefel o ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus mor isel ag yr oedd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod angen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar rai busnesau yn y categorïau eraill, ond nid oedd modd dadelfennu'r rhain. Mae'r drafodaeth yn cynnig posibiliadau am fwy o ymchwil ac mae'r canlyniadau, fel y maent, yn tynnu sylw at ddiffygion mewn cymwysterau perchnogion busnes, hyfforddiant busnes ffurfiol, a gwerthfawrogi hyfforddiant busnes ffurfiol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

3.2 Ynglŷn â'r Gweithwyr

O'r 1,583 o fusnesau a ymatebodd, roedd gan 1,094 ohonynt weithwyr, ac roedd hyn, ar 69 y cant, yn ddau bwynt canran yn fwy nag yn 2010. Roedd y 1,094 o fusnesau hyn yn cyflogi 11,392 o bobl, sy'n gyfradd o ychydig dros 10 gweithiwr fesul busnes. Gan eu cymryd dros gyfanswm y nifer a arolygwyd, disgynnodd y gyfradd i saith gweithiwr fesul busnes. Roedd y cyfraddau hyn yn is nag yn 2007 (17 a 11) a 2010 (15 a 10). Roeddent yn tynnu sylw at duedd tuag i lawr o bobl yng Nghymru wledig a gyflogwyd gan fusnesau; tuedd tuag i lawr a oedd wedi cynyddu yn ei serthwydd ers 2010. Yn wir, yn 2007 a 2010, gan ddefnyddio rhifau crai, roedd mwy o bobl wedi eu cyflogi gan lai o fusnesau nag yn 2013. Mae Tabl 3.5 yn dangos y niferoedd ym mhob categori o weithiwr ar gyfer 2013.

Tabl 3.5: Nifer y Gweithwyr fesul Categori

Nifer y gweithwyr	Rheolaidd Llawn amser	Rheolaidd Rhan amser	Tymhorol llawn amser	Tymhorol rhan amser	Achlysurol
Gweithwyr gwryw	5006	918	130	204	306
Gweithwyr benyw	2186	1799	90	337	416
Cyfanswm G a B = 11392	7192	2717	220	541	722

Fel y trafodwyd uchod, ers 2010 bu gostyngiad o 1,958 yn y nifer absoliwt o weithwyr. Mae cymhariaeth ag adroddiad 2010 yn dangos mai cyfansoddiad y lleihad hwn oedd cyflogaeth 'Llawn-amser rheolaidd' (llai 1,841); cyflogaeth 'Rhan-amser rheolaidd' (llai 345); a chyflogaeth 'Llawn-amser tymhorol' (llai 74). I'r gwrthwyneb, roedd cynnydd mewn cyflogaeth 'Rhan-amser tymhorol' (84) ac 'Achlysurol' (218). Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau yn y tabl hwn yn tynnu sylw at dwf mewn ffyrdd o gyflogaeth a oedd yn fwy ansicr.

3.3 Recriwtio a Hyfforddi Gweithwyr

Dalgylch recriwtio

Roedd yr holiadur yn gofyn i gyflogwyr amcangyfrif pa gyfran o'u gweithlu a recriwtiwyd yn lleol; yn rhanbarthol; o'r DU ehangach; ac o'r tu allan i'r DU. Mae cymharu'r canlyniadau dros amser yn awgrymu bod y gweithlu ar gyfer busnesau gwledig yn dod yn fwy lleol.

Yn 2010, cafodd 64 y cant eu recriwtio o fewn deng milltir i'r gweithle; 26 y cant rhwng deg a 50 milltir; 7 y cant o fwy na 50 milltir ond o fewn y DU; a 3 y cant o'r tu allan i'r DU. At hyn, recriwtiodd 508 busnes (39 y cant o gyfanswm y nifer a arolygwyd neu 58 y cant o'r busnesau oedd â gweithwyr) eu gweithlu cyfan o fewn deng milltir. Roedd y canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd gan arolwg 2007.

Fodd bynnag, dangosodd arolwg 2013 y cafodd 84 y cant eu recriwtio o fewn deng milltir i'r gweithle; 13 y cant rhwng deg a 50 milltir; dim ond saith y cant o fwy na 50 milltir ond o fewn y DU; ac un y cant o'r tu allan i'r DU. Cododd y nifer o fusnesau a recriwtiodd eu gweithlu cyfan o fewn 10 milltir i 705, a oedd yn cynrychioli 45 y cant o gyfanswm y nifer a arolygwyd, neu 64 y cant o fusnesau yr oedd ganddynt weithwyr. Fel y trafodwyd uchod, yn 2010 roedd y ffigurau yn 39 y cant a 58 y cant yn y drefn honno, sydd, ynghyd â'r data arall a drafodir yma, yn awgrymu bod y gweithlu ar gyfer busnesau gwledig yn dod yn fwy lleol.

I gymryd lle'r cwestiwn a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr, sydd bellach wedi darfod, gofynnwyd i fusnesau a oeddent yn cyflogi gweithwyr nad oeddent yn wladolion y DU ac, os atebwyd ie, a oeddent wedi byw yn y DU yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Dangosodd yr arolwg fod saith y cant (103 busnes) o gyfanswm y nifer a arolygwyd yn cyflogi gweithwyr nad oeddent yn wladolion y DU ac roedd 36 y cant o'r 103 busnes hyn yn cyflogi gweithwyr a gyrhaeddodd y DU yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ar 47 y cant, daeth y rhan fwyaf o wledydd A8 Ewrop (y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia); 39 y cant o wledydd eraill yn Ewrop, megis Awstria, Bwlgaria, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen a Rwmania; ac 14 y cant o weddill y byd, o wledydd sy'n cynnwys yr Ynysoedd Philipinau, India, Nepal, Canada, Seland Newydd a De Affrica. Gydag ystod mor eang o wledydd, wedi'u dosbarthu ar draws poblogaeth gymharol isel, ni ddaeth unrhyw dueddiadau i'r amlwg.

Dulliau Recriwtio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ddulliau yr oeddent yn eu defnyddio i recriwtio gweithwyr. Mae Tabl 3.6 yn cymharu'r canlyniadau ar gyfer 2004, 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.6: Dulliau a Ddefnyddiwyd i Recriwtio Gweithwyr

	Papurau newyddion lleol	Papurau Newyddion Cenedlaethol	Radio/Teledu lleol	Canolfannau Waith	Rhyngwrwyd	Gair llafar/teulu a ffrindiau	Aral	Dim
	%	%	%	%	%	%	%	%
2004	32	2	2	-	8	40	7	12
2007	27	3	1	28	7	43	8	6
2010	21	2	2	28	10	50	10	5
2013	19	1	1	22	9	52	9	6

Mae'r tabl yn tynnu sylw at rai tueddiadau. Yn gyntaf, bu lleihad mewn defnyddio papurau newyddion lleol ar gyfer hysbysebu. Er bod bron un o bob pum busnes yn eu defnyddio, yn 2004 32 y cant ydoedd, neu bron un o bob tri. Bu lleihad mewn defnyddio Canolfannau Gwaith. Yn ddiddorol, er gwaethaf y cynnydd yn y cyfrannau o fusnesau sydd â mynediad at y Rhyngwrwyd (gweler tabl 3.9 isod) ni fu cynnydd yn defnyddio y Rhyngwrwyd fel dull o hysbysebu. Ers 2004 bu cynnydd cyson mewn recriwtio drwy air llafar a theulu a ffrindiau: dulliau anffurfiol o recriwtio. Yn ogystal â'r ffaith bod 52 y cant o fusnesau wedi defnyddio'r dulliau anffurfiol hyn, graddiodd y canran uchaf o ymatebwyr hyn fel y dull mwyaf effeithiol o recriwtio, ar 26 y cant.

Ansawdd y Recriwtio a Hyfforddiant

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg roi sgôr, gan ddefnyddio graddfeydd Likert, i ansawdd a hygyrchedd asiantaethau recriwtio, ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth, a hyfforddiant sgiliau, drwy ymateb i gyfres o ddatganiadau. Mae Tabl 3.7 yn dangos y cyfrannau o gyfranogwyr yr arolwg a roddodd bob sgôr ac yn cymharu ymatebion 2013 â rhai arolwg busnes gwledig 2007 a 2010, a ofynnodd yr un cwestiynau.

I raddau helaeth roedd y canlyniadau ar gyfer 2013 yn taro tant gyda chanlyniadau arolygon 2007 a 2010. Cytunodd ymatebwyr ei fod yn anodd recriwtio gweithwyr medrus, ac roedd prinder ymgeiswyr ar gyfer gwaith. Arhosodd amheuan ynghylch gallu asiantaethau recriwtio ffurfiol i ddarparu ymgeiswyr da ar lefelau tebyg ar draws y tri arolwg. Ac er bod yna gytundeb fod hyfforddiant sgiliau yn rhy ddrud, roedd cyfrannau uchel o ymatebwyr yn cytuno ei fod o ansawdd da.

Mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 3.7 yn dangos bod perchnogion busnesau yng Nghymru wledig yn dal i ganfod fod problemau yn 2013 gyda'r asiantaethau recriwtio ac ansawdd y gweithwyr posibl. Yn ogystal, roedd gan gyfrannau uchel o fusnesau gwledig ffafriaeth barhaol i ddefnyddio rhwydweithiau anffurfiol ar gyfer recriwtio, sy'n ategu'r canlyniadau yn Nhabl 3.6 trwy awgrymu bod y dulliau hyn yn gyffredin.

Tabl 3.7: Ansawdd asiantaethau recriwtio, ymgeiswyr a hyfforddiant sgiliau

	Anghytuno'n gryf			Anghytuno			Ddim yn cytuno nac yn anghytuno			Cytuno			Cytuno'n gryf		
Datganiad	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Mae'n anodd recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol	6	6	5	11	14	13	21	24	29	29	31	30	34	25	23
Mae prinder ymgeiswyr ar gyfer gwaith	8	14	17	16	29	23	26	26	27	25	17	20	25	14	13
Mae'n ddefnyddiol defnyddio rhwydweithiau anffurfiol ar gyfer recriwtio	5	6	7	11	10	9	34	36	34	31	31	32	19	17	18
Mae asiantaethau recriwtio ffurfiol yn darparu ymgeiswyr da	15	16	17	23	23	21	50	49	52	9	10	8	4	2	2
Mae hyfforddiant sgiliau i weithwyr yn rhy ddrud	8	5	4	16	15	13	36	33	35	25	26	29	15	21	19
Mae hyfforddiant sgiliau i weithwyr o ansawdd da	4	5	4	9	8	7	32	30	37	35	37	33	21	20	19
Mae'n hawdd cael	9	10	8	20	16	17	37	4	44	28	26	26	6	6	5

hyfforddiant sgiliau weithwyr	i															
-------------------------------------	---	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

3.4 Gweithrediad a Strategaeth Busnes

Cynlluniau Busnes a Marchnata

Er mwyn archwilio gallu i gynllunio ac ymwybyddiaeth busnesau, mae arolwg busnes 2013 yn codi dau gwestiwn sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir gan fusnesau o offer cynllunio. Mae Tabl 3.8 yn dangos y canlyniadau, ynghyd â chanlyniadau 2007 a 2010.

Tabl 3.8: Cynlluniau busnes

Cwestiwn	OES		
	2007	2010	2013
	%	%	%
Oes gennych chi gynllun busnes ysgrifenedig?	31	33	24
Oes gennych chi gynllun marchnata ysgrifenedig?	18	17	14

At ei gilydd, roedd gan lai na chwarter y busnesau a arolygwyd gynllun busnes ysgrifenedig, ac roedd hwn yn lleihad o naw pwynt canran o gymharu â 2010. Ac er nad oedd y gyfran o fusnesau a oedd yn defnyddio cynllun marchnata ysgrifenedig erioed yn fawr, bu lleihad o dri phwynt canran arall ers 2010. Yn ddadleuol, mae'r canlyniadau hyn yn nodi naill ai y bu dadrithiad o ran cynlluniau busnes mewn amgylchedd busnes sy'n fwyfwy ansicr, neu fod busnesau yn manteisio ar yr awyrgylch hyblyg a gynigir wrth ddefnyddio TGCh (Band eang a'r Rhyngwrdd) fel offer busnes. Mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn dueddol o ategu'r ail osodiad.

Band eang a'r Rhyngwrdd

Mae Tabl 3.9 yn olrhain y defnydd cynyddol o TGCh gan fusnesau gwledig yng Nghymru dros gyfnod yr arolygon yn 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.9: Y Rhyngwrdd a Band eang

Cwestiwn	OES		
	2007	2010	2013
	%	%	%
Oes gennych chi gyswllt â'r Rhyngwrdd?	67	85	91
Oes gennych Fand eang yn eich lleoliad busnes?	Ni ofynnwyd	84	88

Oes gan eich busnes Fand eang?	Ni ofynnwyd	76	83
---------------------------------------	-------------	----	-----------

Bu cynnydd yn y nifer o gysylltiadau a'r defnydd o'r Rhyngwrdd a band eang dros gyfnod yr arolygon. Fodd bynnag, yn 2013 roedd yna rhai busnesau o hyd (pump y cant) nad oedd wedi cael mynediad at y gwasanaeth band eang a oedd, serch hynny, ar gael iddynt. Yn ogystal, nid oedd gan 12 y cant o'r arolwg fynediad at fand eang.

Roedd dau gwestiwn arall yn ymwneud â band eang. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr roi gradd i'w gwasanaeth band eang. Mae Tabl 3.10 yn dangos y canlyniadau hyn ac yn eu cymharu â 2010.

Tabl 3.10: Graddio Band eang

	Ardderchog	Da	Yn ddigonol	Gwael
	%	%	%	%
2010	14	42	32	12
2013	8	32	38	22%

Mae'r data yn Nhabl 3.10 yn dangos bod bodlonrwydd cwsmeriaid busnesau wedi tueddu i leihau ers 2010. Roedd cyfrannau Ardderchog a Da wedi lleihau gan chwech a deg pwynt canran yn y drefn honno; Roedd Yn Ddigonol wedi cynyddu gan chwe phwynt canran, a oedd yn cyfateb i leihad Ardderchog; ond roedd Gwael wedi cynyddu gan 10 pwynt canran, gan gyfateb i leihad Da. Esboniad posibl a ategir gan sylwadau rhai ymatebwyr, oedd gyda'r gwelliannau tybiedig mewn argaeledd a chyflymder band eang bu cynnydd mewn disgwyliadau cwsmeriaid na gafodd ei fodloni bob tro.

Yn ail, gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oeddent wedi defnyddio Cynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru neu beidio.¹⁷ Gwelir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.11, sydd hefyd yn dangos canlyniadau 2010.

Tabl 3.11: Defnydd o Gynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru

	Do	Naddo	Ddim yn ymwybodol o'r cynllun
	%	%	%
2010	2	34	64
2013	3	36	61

¹⁷ Gwnaeth y Cynllun Cymorth Band Eang [BSS] gynnig grantiau o hyd at £1,000 er mwyn helpu'r rheini oedd yn byw mewn rhannau gwledig Cymru lle mae cysylltedd band eang yn wael o hyd (h.y. cyflymder o dan 2Mbps). O Hydref 1^{af} 2013 fe'i disodlwyd gan Allwedd Band Eang Cymru, cynllun sydd bron yn union yr un fath.

Yn ddadleuol, roedd canlyniadau 2013 yn welliant bach ar 2010 yn yr ystyr bod mwy o fusnesau wedi defnyddio Cynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru ac roedd llai o fusnesau nad oeddent yn ymwybodol ohono. Fodd bynnag, roedd 61 y cant yn dal i fod yn ganran uchel o fusnesau nad oeddent yn ymwybodol. Hefyd, roedd yna mwy o fusnesau nad oeddent wedi cael mynediad at y gwasanaeth yn 2013 nag yn 2010.

Mae'r cwestiwn olaf sy'n ymwneud â'r Rhyngwrwd yn ymdrin â faint o ddefnydd a wneir o'r Rhyngwrwd gan fusnesau. Gofynnwyd i fusnesau sut oedd eu defnydd o'r Rhyngwrwd wedi newid dros y tair blynedd diwethaf. Mae Tabl 3.12 yn cymharu'r canlyniadau o 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.12: Newidiadau yn nefnydd y Rhyngwrwd

	Lleihawyd	Aros yr un peth	Cynyddwyd
	%	%	%
2007	2	18	80
2010	2	25	73
2013	3	26	71

Fel y nodwyd yn adroddiad 2010, gofynnodd adroddiad 2007 am wybodaeth am y pum mlynedd diwethaf; cyfnod a oedd yn ôl pob tebyg wedi gweld twf cychwynnol yn nefnydd y Rhyngwrwd ar gyfer busnes. Ers hynny mae'r Rhyngwrwd wedi dod yn offer busnes hollbresennol ac angenrheidiol: fel mae Tabl 3.9 yn dangos, roedd 91 y cant o fusnesau yn yr arolwg hwn o 2013 wedi cysylltu â'r Rhyngwrwd o gymharu â 67 y cant yn 2007. O ganlyniad, roedd 'Cynyddwyd' wedi arafu tra roedd 'Aros yr un peth' wedi cynyddu, mae hyn yn debygol o fod oherwydd y byddai'r Rhyngwrwd yn cael ei defnyddio drwy'r amser gan lawer o'r busnesau oedd â chysylltiad iddi. Fel y nodwyd gan nifer o ymatebwyr, i rai busnesau, roedd bron i gyd o'r cyfathrebu ac archebu a wnaed yn digwydd ar-lein.

Mae'n bosibl bod y canlyniadau hyn yn dangos bod defnydd y Rhyngwrwd gan fusnesau yng Nghymru wledig yn agosáu at ddirlawnder. Fodd bynnag, erys rhai problemau. Problem oedd yn ymwneud â mabwysiadu'r gwasanaeth oedd bod gan bump y cant o fusnesau fynediad i fand eang ond heb ddewis cysylltu iddo eto. Problem oedd yn ymwneud â mynediad oedd nad oedd modd i 12 y cant o boblogaeth yr arolwg gael mynediad i fand eang. Ac, fel y trafodwyd uchod, ymddengys fod angen naill ai gwell reolaeth o ddisgwyliadau busnesau sy'n defnyddio band eang, neu welliant i isadeiledd band eang. Yn fwy cadarnhaol, ymddengys fod busnesau gwledig yng Nghymru yn ennill arbenigedd a phrofiad yn eu defnydd o TGCh at ddibenion busnes.

Hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau

Mae'r Rhyngwrwd yn gyfrwng pwerus ar gyfer hysbysebu cynhyrchion a gwasanaethau. Mae Tabl 3.13 yn dangos sut yr oedd yn cymharu ag ystod o ddulliau mwy traddodiadol. Dangosir data ar gyfer 2004, 2007 a 2010 hefyd ar gyfer cymhariaeth.

Tabl 3.13: Dulliau a Ddefnyddiwyd i hysbysebu Cynhyrchion a Gwasanaethau

	Papurau newyddion lleol	Papurau Newyddion Cenedlaethol	Radio/Teledu lleol	Rhynggrwyd	Gair llafar	Arall
	%	%	%	%	%	%
2004	49	5	8	27	72	18
2007	40	6	8	40	59	30
2010	39	5	9	46	68	31
2013	36%	4%	5%	54%	68%	20%

Roedd y cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg yn ymwneud â'r cyfrwng hysbysebu a ddefnyddiwyd gan fusnesau, nid p'un a oeddent yn defnyddio hysbysebu. Mae'r tabl yn dangos gostyngiad bach mewn hysbysebu drwy bapurau newydd a radio/teledu a chynnydd parhaus yn nefnydd y Rhynggrwyd fel cyfrwng hysbysebu. Felly, mae busnesau yn defnyddio dulliau hŷn o hyd, ond mae'n bosibl eu bod yn newid tuag at ddefnyddio'r Rhynggrwyd mwy. Roedd defnydd o gyfryngau eraill wedi tueddu i ostwng, ar wahân i 'gair llafar'. Roedd y dulliau hysbysebu eraill hyn yn cynnwys teithlyfrau lleol, asiantaethau, clybiau chwaraeon lleol a chylchgronau busnes, llyfrynau, Yellow Pages, nawdd, hysbysebu uniongyrchol, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, pamffledi, dosbarthu taflenni, hysbysfyrddau, posterï a hysbysebu mewn digwyddiadau a drefnwyd.

Lleoliadau Cyflenwyr a Chwsmeriaid

Gofynnwyd i fusnesau'n cymryd rhan yn yr arolwg ddarparu brasamcanion o'r pellterau o'u busnes y lleolir eu cyflenwyr a'u cwsmeriaid. Y pellterau oedd: llai nag 20 milltir; rhwng 20 a 60 milltir; mwy na 60 milltir ond o fewn y DU; a'r tu allan i'r DU. Mae Tabl 3.14 yn dangos y cyfrannau o fusnesau a arolygwyd gyda chwsmeriaid ym mhob pellter, ac mae hefyd yn dangos canlyniadau 2007 a 2010 ar gyfer cymhariaeth.

Tabl 3.14: Pellterau cwsmeriaid o fusnesau gwledig

Pellter	% cyfanswm y busnesau â chwsmeriaid ar bellter		
	2007	2010	2013
	%	%	%
Llai nag 20 milltir	70	80	82
20 – 60 milltir	62	66	71
Mwy na 60 milltir	53	53	61
Y tu allan i'r DU	22	20	26

Tra roedd y duedd am gyfran uwch o fusnesau i fod â chwsmeriaid lleol wedi parhau, roedd gan gyfran lai (14 y cant) eu holl gwsmeriaid yn lleol, o gymharu â 2007 a 2010 (11 y cant a 18 y cant yn y drefn honno). Yn ogystal, bu cynnydd ym mhob categori, a ddangosodd bod busnesau yn ehangu eu sylfeini cwsmeriaid. Yn ddadleuol, roedd yr ehangiad hwn o sylfeini

cwsmeriaid yn ganlyniad i'r dirwasgiad economaidd. O bosibl, fodd bynnag, roedd yn ddarganfyddiad cadarnhaol, oherwydd dros y tymor hwy fe ddylai'r busnesau gwledig hyn gael sylfeini cwsmeriaid sy'n fwy diogel ac amrywiol.

Mae Tabl 3.15 yn dangos cyfran y busnesau a arolygwyd gyda chyflenwyr ym mhob pellter, a hefyd yn dangos canlyniadau 2007 a 2010.

Tabl 3.15: Pellterau cyflenwyr o fusnesau gwledig

Pellter	% cyfanswm y busnesau â chyflenwyr ar bellter		
	2007	2010	2013
	%	%	%
Llai nag 20 milltir	55	68	71
20 – 60 milltir	50	54	60
Mwy na 60 milltir	58	59	65
Y tu allan i'r DU	13	14	16

O Dabl 3.15 gellir casglu bod busnesau gwledig wedi ehangu eu sylfeini cyflenwi, yn gyffredinol. Aeth twf o 16 pwynt canran mewn cyflenwyr lleol rhwng 2007 a 2013 law yn llaw â chynnydd sylweddol yng nghyfrannau'r busnesau gwledig oedd yn edrych ymhellach i ffwrdd am eu cyflenwyr, a oedd yn debyg i achos y cwsmeriaid. Roedd y gyfran o fusnesau oedd â'u holl gyflenwyr wedi'u lleoli'n lleol wedi gostwng un pwynt canran i 13 y cant ers 2010. Roedd yn chwech y cant yn 2007.

Gall ystod o ffactorau fod wedi ysgogi'r ehangiad hwn o sylfeini cwsmeriaid a chyflenwyr, gan gynnwys y dirwasgiad economaidd, cystadleuaeth o ran pris, a'r ffordd y mae arbenigedd a defnydd o'r Rhynggrwyd yn galluogi archebu a dosbarthu.

Mathau o Gwsmer a'r Gwerthiannau y maent yn eu Cynhyrchu

Gofynnwyd i fusnesau gwledig o ba sectorau y tynnwyd eu cwsmeriaid. Dynodwyd y categorïau canlynol: preifat ac aelwyd, siopau, busnesau bach, busnesau mwy¹⁸, y sector cyhoeddus, cyfanwerthwyr a dosbarthwyr, ac eraill. Roedd y Rhynggrwyd yn categori newydd ar gyfer 2013. Mae Tabl 3.16 yn dangos y cyfrannau o fusnesau a arolygwyd a werthodd i bob categori o gwsmer. Hefyd, mae'r tabl yn dangos canlyniadau 2007 a 2010.

¹⁸ Noder y gadawyd y penderfyniad o ran sut caiff busnes mawr neu fach eu diffinio i'r ymatebydd

Tabl 3.16: Gwerthiannau a gynhyrchwyd gan Fathau o Gwsmer

Math o gwsmer	2007	2010	2013
	%	%	%
Preifat ac aelwyd	74	79	83
Siopau	19	18	16
Busnesau bach	39	39	38
Busnesau mwy	30	32	28
Sector cyhoeddus	31	31	25
Cyfanwerthwyr a dosb.	9	8	8
Eraill	7	8	7
Rhyngrwyd			29

Y canlyniadau pwysicaf yn y tabl oedd y cynnydd yn y busnesau a oedd yn gwerthu i gwsmeriaid preifat ac aelwyd; y tueddiadau gostyngol mewn gwerthiannau i siopau, busnesau mwy a'r sector cyhoeddus; a'r gyfran fawr – bron traean – o fusnesau a gynhyrchodd werthiannau drwy'r Rhyngrwyd. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau ar gyfer defnydd o'r Rhyngrwyd a'r rhai yn Nhablau 3.13, 3.14, 3.15 a 3.16 yn dueddol o gefnogi'r sylwadau a wnaed uchod sy'n ymwneud ag arbenigedd a phrofiad cynyddol busnesau gwledig yng Nghymru o ran eu defnydd o TGCh at ddibenion busnes.

Noddi gweithgareddau'r gymuned leol

Dangosodd arolwg 2013 fod canran y busnesau gwledig yng Nghymru a oedd yn noddi gweithgareddau cymunedol wedi parhau i ostwng. Yn 2007 roedd yn 53 y cant; yn 2010 y gyfran oedd 49 y cant; ond yn 2013 bu gostyngiad i 46 y cant. Roedd yr ystod o weithgareddau a noddwyd yn debyg ar draws y tri arolwg ac roedd yn cynnwys clybiau chwaraeon, elusennau, gwyliau a sioeau lleol, grwpiau ieuenctid, ysbytai ac ambiwlansys awyr, cartrefi Dr Barnardos, radio ysbyty, digwyddiadau ysgolion, a grwpiau cefnogi canser a hosbisau;

3.5 Manteision a chryfderau tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau

Awgrymodd ymatebwyr fod yna fanteision economaidd yn y tueddiad ymddangosol o rentiau ac yswiriant is yn ardaloedd gwledig, ac am gostau teithio i'r gwaith is (os am waith lleol yn unig), fel y dangosir gan y dyfyniadau hyn:

Mae'n awyrgylch gweithio hamddenol sydd â chostau gweithredu is.

Mae gen i berthnasau gwell â chleientiaid, awyrgylch mwy cyfeillgar, ac mae'r gorbenion yn llai nag yn y ddinas.

Mae yna ymdeimlad o gymuned - felly os ydych yn gwneud gwaith da rydych yn ennill enw da yn gyflym. Ac mae'r pellter teithio i swyddi lleol yn anwybyddiadwy, sy'n lleihau gwariant busnesau ar danwydd.

Fodd bynnag, yn hytrach na nodi manteision oedd yn bur economaidd, dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y prif fanteision a gynigwyd gan leoliad gwledig yn ymwneud â ffordd o fyw a'r amgylchedd. Roedd y manteision hyn yn cynnwys harddwch naturiol llawer o'r Gymru wledig; heddwch a thawelwch; ffordd fwy ymlaciol o fyw; amodau teithio a chymudo gwell; a chymunedau agosach:

Rydw i'n gallu aros yn yr ardal y cefais fy magu ynddi, gan roi'r un manteision a gefais i i'm teulu - ymdeimlad o gymuned, troseddu isel, nifer isel o ddieithriaid, ac amgylchedd sydd yn gyffredinol yn ddiogel i fagu plant ynddo.

Rydym yn byw mewn lle prydferth - mae yna 'ansawdd bywyd'. Mae gwerthu nwyddau a gynhyrchwyd yn yr ardal yn denu twristiaid. Mae pobl yn hoffi prynu nwyddau a wnaed ar y safle.

I rai busnesau, roedd lleoliad o'r pwys mwyaf, oherwydd cydnabuwyd bod gan y ffactorau hyn o ran ffordd o fyw a'r amgylchedd botensial i gryfhau busnesau gwledig gan beri buddion economaidd mwy uniongyrchol, yn enwedig o ran denu ymwelwyr a thwristiaid:

Mae bod mewn lleoliad syfrdanol yn denu cwsmeriaid.

Rydym wedi ein lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac rydym yn cynnig llety a lleoedd i godi pebyll ar gyfer cerddwyr a dringwyr yn bennaf. Lleoliad y busnes yw ei gryfder.

Dadleuwyd bod cymunedau agosach yn dueddol o arwain at berthnasau agosach gyda chwsmeriaid a chyflenwyr, a defnydd o rwydweithiau teuluol a chymunedol i gyflogi gweithwyr ac i ennill enw da ar gyfer y busnes. Roedd hyn yn cyd-fynd â defnydd helaeth o 'air llafar' er mwyn recriwtio gweithwyr a hyrwyddo busnesau, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd sylwadau a wnaed gan rai ymatebwyr yn tueddu i ategu'r syniad hwn:

Mae gennym berthnasau agos gyda chwsmeriaid. Mae'n hawdd cael gwybodaeth am gystadleuwyr. Ac mae'n hawdd cael argymhellion gair llafar.

Rydym yn gallu sefydlu enw da, oherwydd mae gair llafar yn hanfodol i'n busnes

Rydych yn gallu adeiladu perthnasau cryfach gyda phobl leol, sy'n helpu i hyrwyddo'ch brand drwy air llafar. Does gan ddinasoedd mo'r cydgysylltiad hwn. Ac mae'r gystadleuaeth yn llai ac wedi'i gwasgaru mwy.

Ynghlwm â'r syniad o gymunedau agosach oedd y posibilrwydd o gael marchnadoedd arbenigol a phwyntiau gwerthu unigryw o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Mae cael lleoliad lleol wedi ein galluogi i ddatblygu a chynnal perthnasau sydd eisoes yn bodoli ac i greu marchnad arbenigol.

3.6 Anfanteision a bygythiadau tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau

Roedd llawer o anfanteision tybiedig lleoliad gwledig ar gyfer busnesau yn gwrthgyferbynnu'r manteision a drafodwyd uchod. Er enghraifft, tra roedd rhai'n gweld tirluniau prydferth roedd eraill yn gweld ynysu daearyddol a'r costau oedd yn gysylltiedig â hynny, a oedd yn cynnwys gorfod teithio cryn bellterau; yr angen i fod â chlodiant personol â modur; ffyrdd gwael, rhai ohonynt yn rhy gul ar gyfer tryciau mawr modern; anhygyrchedd, yn enwedig os oes tywydd garw; gwasanaethau cyfyngedig; prinder nwyddau o ansawdd da ar gael yn lleol; ardrethi busnes gormodol; a chostau tanwydd uchel.¹⁹

Mae sylwadau'r ymatebwyr hyn a ddewiswyd yn esbonio'r materion hyn:

Marchnad anodd iawn i gael mynediad iddi yn lleol, mae'n rhaid i gwsmeriaid a minnau deithio llawer. Mae prisiau petrol a disel llawer yn uwch. Mae yna lawer o gystadleuaeth leol. Mae'n anodd, bod yn fusnes bach.

Mae'n anodd ehangu maint y busnes oherwydd lleoliad daearyddol y cwsmeriaid.

Pellter i gyrraedd fan hyn gyda thrafnidiaeth gyhoeddus wael iawn. Cost petrol wedi codi'n uchel iawn, felly mae masnach wedi gostwng.

Nid oes cyfleusterau lleol i weithwyr. Rhaid teithio mewn car i gyrraedd y swyddfa bost leol. Mae cyflenwyr yn dosbarthu'n llai aml na mewn ardaloedd trefol.

Ystyriwyd bod poblogaethau lleol bach yn ffactor o ran marchnadoedd gorlawn, ar ochr y cyflenwyr ac ar ochr y galw. At ei gilydd, gallai canlyniad y ffactorau hyn fod yn sylfaen cwsmeriaid isel, trosiant busnes isel ac elw bach. Tynnodd yr ymatebwyr canlynol sylw at rai o'r achosion:

Diffyg cwsmeriaid o ganlyniad i nifer bach o bobl yn pasio heibio mewn ardal denau ei phoblogaeth.

Mae yna gostau tanwydd uchel a chyflogau isel, ac felly ychydig iawn o incwm gwario sydd.

Mae sylw'r ymatebydd yn crynhoi problemau tybiedig rhedeg busnes gwledig:

Costau tanwydd uwch, sylfaen cwsmeriaid lleol fach, isadeiledd gwael, esgeulustod y llywodraeth, grym gwario isel cwsmeriaid, diffyg hygyrchedd.

Dadleuodd ymatebwyr fod y sefyllfa'n cael ei gwaethygu gan boblogaeth wledig a oedd yn heneiddio, a oedd yn dueddol o fod yn llai symudol ac â diffyg mynediad at gyfleusterau

¹⁹ Gwnaeth adroddiad a gomisiynwyd gan Uned Ymchwil Economaidd LIC ddarganfod bod, ac eithrio Caerdydd a phen dwyreiniol coridor yr M4, ac i raddau llai Abertawe a gogledd-ddwyrain Cymru, diwydiant a busnes yng Nghymru yn 'ymylol': h.y. roedd daearyddiaeth a chyfyngiadau isadeiledd sydd eisoes yn bodoli yn rhwystro mynediad at farchnadoedd ehangach a phroffidiol, a arweiniodd at gynhyrchiant isel. [LIC a UWE (2010) 'Cynhyrchiant yng Nghymru: yr effaith y mae bod ar y cyrion yn ddaearyddol yn ei chael ar gynhyrchiant']

symudedd; dadl a ategir gan arolygon eraill Arsyllfa Wledig Cymru (e.e. Prosiect ardaloedd gwledig anghysbell, 2009, Older People and Place in Wales 2013. Yn ogystal, nododd rhai perchnogion busnes eu bod yn 'mynd yn rhy hen ar gyfer hwn'. Cefnogir tystiolaeth am ymddangosiad carfan hŷn o berchnogion busnes gan y dadansoddiad yn Nhabl 3.2 o'r adroddiad hwn, sy'n dangos bod perchnogion busnes yng Nghymru wledig yn tueddu i fod yn hŷn, ac roedd y newid hwn o ran oedi yn fwy amlwg rhwng 2010 a 2013 na 2007-2010.

Mae'r bygythiadau eraill a nodwyd i fusnesau gwledig yn cynnwys lledaeniad cwmnïau mawrion²⁰. Roedd dadleuon bod y dirwasgiad yn cynyddu'r gyfradd ehangu, gyda chwmnïau mawrion a chontractwyr mawr eraill yn gorfod chwilio am gyfleoedd busnes newydd mewn ardaloedd gwledig na fyddent fel arall wedi ymchwilio iddynt.

Awgrymwyd bod gan y cymunedau agosach tybiedig, perthnasau agosach gyda chwsmeriaid a chyflenwyr, a rhwydweithiau teuluol a chymunedol, a oedd yn cael eu hystyried yn fantais gan rai, y posibilrwydd o achosi plwyfoldeb negyddol a oedd o bryd i'w gilydd yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg; ac economi incwm isel, sgiliau isel, gyda phrinder tybiedig o bobl â sgiliau neu bobl leol addas ar gael i'w cyflogi. Mae'r sylwadau hyn a ddewiswyd yn esbonio'r pwyntiau hyn:

Yn anffodus, os nad ydy'r bobl leol yn eich hoffi, mae'n lledaenu'n gyflym drwy'r ardal, gan golli busnes iddoch.

Mae yna agwedd wael –ffordd o feddwl sy'n ynysig. Ac mae yna obsesiwn gyda'r iaith Gymraeg.

Mae'n anodd recriwtio gweithwyr o lefel uwch.

Fel yn 2010, roedd yna gwynion ynglŷn â safon telathrebu ac argaeledd ac ansawdd band eang yng Nghymru. Dadleuwyd bod safon wael cyfathrebu yn gyffredinol a band eang yn benodol yn fygythiad difrifol i fusnesau yng Nghymru wledig, o ystyried y twf mewn gweithgareddau busnes a oedd yn ymwneud â'r Rhyngwrdd, a'u pwysigrwydd i fusnesau.²¹

Mae band eang yn warthus, mae'n bosib y gallai danseilio'ch hygredded neu'ch gwerth tybiedig.

Mae band eang yn eithriadol o araf - ond mae'n dod yn fwyfwy pwysig i'n busnes.

Mae band eang yn rhy araf – nid yw llywio â lloeren ar gael – na signal ffôn symudol ychwaith.

Mae uwchraddio band eang i ffeibr optig yn bell yn y dyfodol.

Roedd sylwadau ynglŷn â'r berthynas rhwng llywodraeth a busnes yn debyg i'r rhai a wnaed yn 2007 a 2010. Ystyriwyd nad oedd y llywodraeth, ar lefelau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, yn cynnig cymorth i fusnes a dadleuwyd bod gormod o

²⁰ Busnesau sydd â nifer mawr o siopau neu ganolfannau yw 'cwmnïau mawrion'. Yn manteisio ar brynu canolog ac yn defnyddio gwerthu swmp er mwyn cadw prisiau'n isel.

²¹ Nid oedd dyluniad yr holiadur yn caniatáu nodi meintiol tueddiadau: gofynnwyd i ymatebwyr am sylwadau, yn hytrach na graddio manteision ac anfanteision drwy raddfeydd Likert neu gwestiynau aml ddewis. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad o'r tueddiadau yn dangos cyfran uchel (11 y cant) o gwynion am fand eang, mynediad at y Rhyngwrdd a thelathrebu yn gyffredinol.

reoleiddio busnes a gormod o ddeddfwriaeth, yn ogystal â methiant i hyrwyddo ardaloedd gwledig a phentrefi mewn perthynas â thwristiaeth; a lefelau isel o fuddsoddi yng Nghymru wledig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn nodweddiadol o'r rheini a wnaeth amlygu'r materion hyn:

Llywodraeth Cymru ddim yn gwybod ble'r ydym. Ydyn nhw erioed yn gadael Caerdydd?

Agwedd negyddol Parc Cenedlaethol Eryri

Methu â chael gwaith o'r awdurdod lleol yr ydym yn seiliedig ynddo; Seilwaith ffyrdd gwael (mae'n dadfeilio); Cyflymderau'r Rhynggrwyd yn rhy araf o hyd; Methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cwmnïau sy'n tyfu a leolir yng Nghymru ac sy'n eiddo i Gymry.

Dim buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn ardaloedd gwledig.

Ymddengys nad yw'r llywodraeth yn ymwybodol, pan maent yn gosod rheolau, o ba mor anodd ydyw i fusnesau mewn trefi gwledig.

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod busnesau yng Nghymru wledig, o ganlyniad i'w phellenigrwydd, yn hynod o agored i agweddau negyddol yr hinsawdd economaidd bresennol megis: toriadau gan y llywodraeth a chyllidebau darbodus, cyfraddau TAW uchel, toriadau mewn gwasanaethau, cyflogau isel, a chostau cynyddol tanwydd, cludiant ac ynni. Ac, yn benodol, roeddent yn agored i seilwaith cyfathrebu gwael, o ran TGCh a chludiant.

3.7 Argraffiadau yn ymwneud â Chymorth Busnes

Gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr i ansawdd y cymorth busnes a'r cyngor ar gael o ystod o asiantaethau. Sylwer defnyddiwyd categori ychwanegol 'Asiantaethau sy'n Gysylltiedig â Llywodraeth Cymru' yn yr arolwg 2013 hwn. Mae Tabl 3.17 yn dangos y canlyniadau.

Tabl 3.17: Barn ar Gyngor a Chyngor Busnes

	Da lawn	Da	Boddhaol	Gwa el	Gwa el lawn	Erioed wedi'i Ddefn yddio ²²
	%	%	%	%	%	%
Llywodraeth Cymru	4	11	20	10	6	49
Asiantaethau sy'n Gysylltiedig â Llywodraeth Cymru	3	9	18	9	6	54
Awdurdodau Lleol	3	10	23	12	10	41
Asiantaethau Menter	1	5	16	9	6	63

²² Ni archwiliwyd y categori 'Erioed wedi'i Ddefnyddio' ymhellach er mwyn darganfod y rhesymau pam roedd ymatebwyr wedi nodi nad oedden nhw'n defnyddio gwasanaethau o'r fath erioed. Y nod yma oedd archwilio barn rheini oedd wedi defnyddio gwasanaethau cyngor a chymorth. Gellid priodoli peidio â defnyddio'r gwasanaethau i nifer o resymau, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth o, neu werth am, wasanaethau o'r fath.

Undebau/ Siambrau Masnach	1	5	13	9	5	67
Sefydliadau Masnach	5	14	18	9	6	54

Parhaodd y duedd a welwyd yn adroddiad 2010 tuag at roi graddau is i asiantaethau cymorth a chyngor. Roedd graddau 'da iawn' a 'iawn' wedi aros yn is a, gyda'i gilydd, yn is nag yn 2010, heblaw am Lywodraeth Cymru, a oedd yr un peth â 2010, ac Undebau/Siambrau Masnach, a gynyddodd un pwynt canran. Roedd graddau 'boddhaol' yn is yn gyffredinol o rhwng dau a saith pwynt canran (Asiantaethau Menter). Gyda'i gilydd, roedd graddau 'gwael' a 'gwael iawn' wedi aros yn wael ac wedi tueddu i fod ychydig o bwyntiau yn is: heblaw am Lywodraeth Cymru, a gadwodd ei gradd; Awdurdodau Lleol, a wellodd gan dri phwynt canran; ac Asiantaethau Menter, a wellodd gan dri phwynt canran; Roedd y graddau ar gyfer y categori newydd Asiantaethau sy'n Gysylltiedig â Llywodraeth Cymru wedi cyd-fynd â pherfformiadau gwael y gwasanaethau cymorth a chyngor eraill.

Fodd bynnag, gellir dadlau mai'r canlyniadau pwysicaf oedd y graddau uchel ar gyfer 'erioed wedi'i ddefnyddio'. Roedd canlyniadau yn gyffredinol yn uwch nag yn 2010 o rhwng tri phwynt canran (Llywodraeth Cymru) a 13 pwynt canran (Asiantaethau Menter) a chyrhaeddwyd y pwynt lle, heblaw am Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru - ac roedd y rhain yn agosáu at 50 y cant - roedd dros hanner o'r busnesau a arolygwyd ddim y defnyddio'r gwasanaethau cymorth a chyngor.

3.8 Argraffiadau ynglŷn â Llywodraeth Cymru a chymorth busnes a datblygiad economaidd

Gofynnwyd amrediad o gwestiynau i fusnesau ynghylch eu perthynas â Llywodraeth Cymru, a'u hargraffiadau ohoni. O'r busnesau a arolygwyd, roedd 23 y cant wedi elwa'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth Cymru, a oedd yn gynnydd o ddau bwynt canran o gymharu ag arolwg busnesau gwledig 2007. Roedd y mentrau a nodwyd yn cynnwys Cronfeydd Buddsoddi Lleol,²³ Darpariaeth band eang, rhyddhad ardrethi a grantiau ar gyfer buddsoddi, peiriannau ac offer, technoleg, hyfforddiant, manwerthu gwledig, prosesu a marchnata, datblygu, a dechrau busnes. Yn 2013, roedd chwech y cant o'r busnesau a arolygwyd yn ymwybodol o fenter Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Roedd hwn yn is hyd yn oed na'r naw y cant a recordiwyd yn 2010.

Mae Tabl 3.18 yn dangos ymatebion busnesau i gyfres o ddatganiadau am bolisiau Llywodraeth Cymru.

²³ Mae'r Gronfa Fuddsoddi Leol yn becyn cymorth ariannol hyblyg a all helpu BBaChau newydd neu sydd eisoes yn bodoli drwy gynnig grantiau cyfalaf o 40% o brosiectau sy'n gymwys, yn amodol ar isafswm o £1000 ac uchafswm o £10,000. Gweler. <http://www.investinsouthwales.com/local-investment-fund/>

Tabl 3.18: Argraffiadau o bolisiau Llywodraeth Cymru

	Anghytuno'n Gryf neu Anghytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Cytuno neu Cytuno'n gryf
Datganiad am bolisiau Llywodraeth Cymru			
	%	%	%
Helpu i greu swyddi	27	57	15
Helpu i greu swyddi o ansawdd uwch	29	61	10
Helpu i ysgogi twf economaidd	29	53	17
Helpu i adfywio cymunedau	30	53	17
Helpu i wella hyfforddiant sgiliau	23	55	23
Helpu i wella cefnogaeth i fusnes	28	53	19

Roedd y canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd gan arolygon 2007 a 2010, gydag unrhyw wahaniaethau'n fater o un neu ddau bwynt canran. Mae'r sylw a wnaed yn adroddiadau 2007 a 2010 yn dal i fod yn berthnasol. Oherwydd, ar gyfer pob datganiad, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn amwys ynglŷn â pholisiau Llywodraeth Cymru, ac roedd yna fwy o ymatebion negyddol nag ymatebion cadarnhaol, roedd cyfrannau sylweddol o fusnesau yng Nghymru wledig (bron 30 y cant ar gyfer pob un heblaw am 'help i wella hyfforddiant sgiliau') yn amharod i gefnogi'r polisiau hyn gan Lywodraeth Cymru.

3.9 Gwybodaeth Ariannol

Roedd adran olaf yr arolwg yn ymwneud â gwybodaeth ariannol. Gan y gallai'r wybodaeth hon gael ei hystyried yn sensitif, ni wnaeth y cwestiynau gofyn am ffigurau penodol, ac yn lle hynny cafodd yr ymatebwyr gynnig categorïau sy'n awgrymu ystodau yn hytrach na ffigurau penodol. Trafodir y wybodaeth sy'n ymwneud â newidiadau mewn trosiant ac elw yn Adran 3.11 'Newidiadau mewn gweithgareddau busnes'

Cofrestru ar gyfer TAW

Ers Arolwg Busnesau Gwledig 2010, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cynyddu'r trothwy cofrestru ar gyfer Treth Ar Werth [TAW] o drosiant blyneddol dros £64,000 i drosiant

blynyddol dros £79,000. Mae Tabl 3.19 yn cymharu cyfraddau cofrestru ar gyfer TAW ar draws arolygon 2007, 2010 a 2013.²⁴

Tabl 3.19: Cofrestru ar gyfer TAW

	Wedi cofrestru	Heb gofrestru	Heb ymateb
	%	%	%
2007	62	20	18
2010	67	26	7
2013	68	28	4

Y canlyniad mwyaf cadarnhaol oedd yn ymwneud â TAW oedd y cynnydd sylweddol, dros amser, mewn parodrwydd busnesau i ymateb i gwestiynau sy'n ymwneud â'u sefyllfa ariannol. Dangoswyd y cynnydd yma mewn parodrwydd i ddarparu data ariannol yn y cwestiynau oedd yn ymwneud â Throsiant Blynyddol ac Elw.

Trosiant Blynyddol

I roi awgrym o drosiant, cynigiwyd yr amrediad safonol o fandiau trosiant a ddefnyddir gan Gyllid y Wlad i'r busnesau a gofyn iddynt ddweud pa fand oedd yn briodol i'w busnes. Mae Tabl 3.20 yn cyflwyno'r canlyniadau hyn ac yn cymharu arolygon 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.20: Trosiant Blynyddol

Trosiant Blynyddol	2007 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 822/1,034 80%	2010 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 1,190/1,308 91%	2013 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 1,490/1,583 94%
	%	%	%
Llai na £61,000	22	24	30
£61,000 - £99,999	11	11	14
£100,000 - £249,999	20	20	22
£250,000 - £499,999	14	16	12
£500,000 - £999,999	14	12	10
£1m - £1.49m	6	5	5
£1.5m - £2.8m	6	6	3
Mwy na £2.8m	7	6	4

Mae'r tabl yn dangos y bu cynnydd yn y gyfran o fusnesau yn y tri band trosiant is, yn enwedig y band 'llai na £61,000' y gwelwyd cynnydd o chwe phwynt canran ynddo ers 2010,

²⁴ O Dadansoddiad o Faint y Busnesau 2013 Ystadegau LIC, gellid cyfrifo cyfradd cofrestru ar gyfer Cymru gyfan o 40 y cant. Mae'r gyfran is hon o gofrestru ar gyfer TAW yn debygol o adlewyrchu natur busnesau bach a hunangyflogaeth ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Arolwg Busnesau Bach 2012, Cyflogwyr BBaCh yn rhoi cyfradd cofrestru ar gyfer TAW o 78 y cant ar gyfer BBaCh.

ac wyth pwynt canran ers 2007. Ynghyd â hwn, bu newidiadau tuag i lawr yn y cyfrannau o fusnesau gyda throsiant blynyddol uwch.

Fel y dengys Tabl 3.21, roedd yna newid cyffredinol tuag i lawr o ran trosiant blynyddol, gyda llai o fusnesau yn nodi cynnydd a mwy yn nodi lleihad na mewn arolygon blaenorol.

Tabl 3.21: Newid mewn Trosiant Blynyddol

	Cynnydd			Lleihad			Aros yr un peth		
	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Trosiant	58	36	27	18	34	39	24	30	34

Elw

Mae Tabl 3.22 yn dangos y cyfrannau o fusnesau yng Nghymru wledig a nododd bod eu helw wedi cynyddu neu leihau.

Tabl 3.22: Newidiadau mewn Elw Blynyddol

	Cynnydd			Lleihad			Aros yr un peth		
	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Elw	42	26	20	27	41	47	31	33	33

Yn ogystal â hyn, i gael amcangyfrif gwell o'r elw yr oedd busnesau yng Nghymru wledig yn ei wneud, gofynnwyd i fusnesau roi syniad bras o'u helw fel canran o'u trosiant. Gwelir y canlyniadau hyn yn Nhabl 3.23, sydd hefyd yn dangos canlyniadau 2007 a 2010 er cymhariaeth.

Tabl 3.23: Elw fel Canran o Drosiant

Elw fel canran o Drosiant Blynyddol	2007 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 815/1034 79%	2010 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 1076/1308 82%	2013 Nifer y Busnesau a ymatebodd: 1409/1583 89%
	%	%	%
Colled neu dalu'r costau	15	18	19
Uwchlaw 0% hyd at 1%	7	9	11
Uwchlaw 1% hyd at 5%	20	22	19
Uwchlaw 5% hyd at	20	20	19

10%			
Uwchlaw 10%	39	31	32

Yn gyffredinol, roedd yna gynnydd yn y cyfrannau o fusnesau a wnaeth nodi colled neu dalu'r costau ac elw is fel canran o drosiant, a lleihad bach yn y busnesau hynny oedd yn gwneud canrannau uchel o elw, er roedd y band uchaf (dros 10 y cant) wedi gwella un pwynt canran. Mae Tabl 3.22 a Thabl 3.23 yn tynnu sylw at duedd o lai o fusnesau yn cynyddu elw a mwy o fusnesau yn profi lleihad mewn elw. Hefyd, roedd elw yn dueddol o fod yn is.

3.10 Newidiadau mewn gweithgareddau busnes

Er mwyn cael rhywfaint o ddealltwriaeth o newidiadau mewn gweithgareddau busnes yng Nghymru wledig, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr a ddyluniwyd i olrhain newidiadau ers arolwg 2010. Mae Tabl 3.24 yn olrhain newidiadau mewn gweithgareddau busnes. Noder nad oedd y cwestiynau sy'n ymwneud ag ehangu neu grebachu busnes yn gyffredinol, ymchwil a datblygu, cynlluniau ar gyfer ehangu, a throsiant ac elw wedi cael eu gofyn yn arolwg 2007. Ar gyfer y cwestiynau hyn dangosir data ar gyfer 2007 -2010 – 2013.

Tabl 3.24: Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes

	Cynnydd neu Ehangu			Lleihau neu Grebachu			Aros yr un peth		
	2007	2010	2013	2007	2010	2013	2007	2010	2013
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Busnes yn Gyffredinol	50	34	27	14	25	30	35	41	43
Gweithlu	-	22	17	-	20	21	-	58	62
Archebion ac Ymweliadau Cwsmeriaid DS 1	-	25	21	-	34	41	-	32	31
Ymchwil a Datblygu DS 2	15	11	11	5	6	7	20	20	20
Yn Bwriadu Ehangu	40	54	34	-	-	-	-	-	-
Trosiant	58	36	27	18	34	39	24	30	34
Elw	42	26	20	27	41	47	31	33	33

DS 1: Yn 2013, ar gyfer chwech y cant o fusnesau, nid oedd Archebion ac Ymweliadau Cwsmeriaid yn berthnasol.

DS 2: Nid oedd gan y mwyafrif o fusnesau raglenni Ymchwil a Datblygu. Y cyfrannau oedd: 64 y cant yn 2007; 63 y cant yn 2010; a 63 y cant yn 2013.

Mae'r canlyniadau ar gyfer newidiadau mewn gweithgareddau busnes yn Nhabl 3.24 yn dangos effeithiau'r dirwasgiad a'r hinsawdd economaidd anodd. I raddau helaeth maent yn

cadarnhau bod busnesau yng Nghymru wledig wedi parhau i gael anhawster. Er bod y gostyngiad serth yn y busnesau a wnaeth ehangu wedi arafu o 16 pwynt canran rhwng 2007 a 2010, roedd y gyfradd o fusnesau a oedd yn ehangu yn dal i fod lawr saith pwynt canran arall yn 2013. Roedd llai o fusnesau wedi ehangu eu gweithlu nag yn 2007 a thra bod mwy wedi aros yr un peth, roedd ychydig mwy wedi crebachu eu gweithlu. Ar draws yr arolwg, i'r busnesau hynny a wnaeth ehangu, yn gyffredinol roedd yr ehangiad mewn gweithlu yn 43 y cant, tra roedd y crebachiad cyffredinol yn 39 y cant.

Roedd canlyniadau Archebion ac Ymweliadau Cwsmeriaid yn waeth yn 2013 nag yn 2010. Yma roedd yr ehangiad cyffredinol, i'r rheini a wnaeth ehangu, yn 43 y cant a'r crebachiad cyffredinol yn 29 y cant.

Arhosodd lefelau Ymchwil a Datblygu yn isel yn 2013, yn dilyn dirywiad, o lefel nad oedd yn arbennig o uchel, rhwng 2007 a 2010. Roedd y canran o fusnesau nad oeddent yn cynnal gwaith Ymchwil a Datblygu wedi aros yn 63-64 y cant ers arolwg 2007.²⁵ Mewn cyferbyniad â chynnydd optimistaidd rhwng 2007 a 2010, roedd cyfran y busnesau a oedd yn bwriadu ehangu yn 2013 wedi cwmpo i chwe phwynt canran yn is na'r lefel yn 2007.

Gan droi at ddata'r 'llinell isaf', fel mae Tabl 3.24 yn dangos, fe wnaeth y dirywiad serth a welwyd rhwng 2007 a 2010 yn nifer y busnesau a wnaeth gynyddu trosiant ac elw, barhau i 2013. I fusnesau a wnaeth gynyddu trosiant ac elw, roedd y cynnydd cyfartalog mewn trosiant yn 44 y cant ac ar gyfer elw roedd y cynnydd cyfartalog yn 40 y cant. Ac i fusnesau a gafodd dirywiad mewn trosiant ac elw, y ffigurau cyfartalog oedd 28 y cant a 30 y cant yn y drefn honno.

Gofynnwyd dau gwestiwn arall ynglŷn â newidiadau mewn gweithgareddau busnes. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chynhyrchion a gwasanaethau newydd. Yn arolwg 2013, roedd 43 y cant o fusnesau wedi cyflwyno nwyddau a gwasanaethau newydd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y canlyniadau wedi cadarnhau tuedd tuag i lawr o gymharu â 58 y cant yn 2007 a 54 y cant yn 2010. Mae yna gostau ynghlwm ag arloesedd a chyflwyno nwyddau a gwasanaethau newydd. Roedd y canlyniadau hyn yn awgrymu nad oedd yr hinsawdd economaidd yn ffafriol i arloesedd busnesau, ac roedd busnesau yn fwyfwy dueddol o ffafrio'r diogelwch a gynigir gan nwyddau a gwasanaethau sefydledig. I raddau roedd hyn yn cyd-fynd â'r lefelau isel o Ymchwil a Datblygu a drafodwyd uchod.

Roedd yr ail gwestiwn yn ymwneud â pha mor hawdd neu anodd ydoedd i ddiogelu buddsoddiad yn y busnes. Mae Tabl 3.25 yn cymharu 2013 a 2010.

²⁵ Mae ystadegau LIC (Gwariant ar ymchwil a datblygu - 22 Tachwedd 2013) yn dangos y cafodd cyfanswm amcangyfrifedig o £556 miliwn ei wario ar ymchwil a datblygu yn 2011 yng Nghymru, cynnydd o chwe phwynt canran mewn termau real o gymharu â 2010 (DU i fyny dau y cant). Hefyd, o 1993 i 2011, roedd yna dwf blynyddol cyfartalog yn nhermau real o dri y cant mewn gwariant ymchwil a datblygu. Gan fod y ffigurau hyn ar gyfer Cymru gyfan, gellir casglu bod gwariant gan fusnesau gwledig naill ai wedi aros yr un peth neu wedi dirywio ychydig, fel y dangosir yn yr arolwg hwn gan Arsyllfa Wledig Cymru.

Tabl 3.25: Rhwyddineb diogelu Buddsoddiad ar gyfer y busnes

	Yn fwy anodd nag o'r blaen	Yr un peth ag o'r blaen	Yn haws nag o'r blaen	Ddim yn berthnasol
	%	%	%	%
2010	48	25	3	24
2013	48	29	2	21

Effaith dirwasgiad economaidd a ddangosir gan adroddiadau yn y cyfryngau ledled y DU yw ei fod yn anodd benthyg arian ar gyfer benthyciadau personol, morgeisiau neu fuddsoddiad busnes. Mae Tabl 3.20 yn dangos bod 48 y cant o'r busnesau a arolygwyd wedi cael mwy o anhawster nag o'r blaen yn diogelu buddsoddiad. Yn ogystal, bu cynnydd ers 2010 o bedwar pwynt canran yn y busnesau a ganfu fod rhwyddineb diogelu buddsoddiad 'yr un peth ag o'r blaen'. Fel y dangosodd adroddiad 2010 Arsyllfa Wledig Cymru, roedd busnesau wedi cael anhawster yn diogelu buddsoddiad, a'r awgrym yw bod llawer o'r busnesau a ddewisodd 'yr un peth ag o'r blaen' yn 2013 hefyd wedi cael anawsterau yn diogelu buddsoddiad. Mae'r canlyniadau yn cadarnhau bod diogelu buddsoddiad yn parhau i fod yn anodd, ac maent yn cyd-fynd â chanfyddiadau arolygon eraill.²⁶

Newidiadau a effeithiodd ar y busnes

Ar gyfer y cwestiynau yn yr adran 'Newidiadau mewn gweithgareddau busnes', gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau, lle bu'n berthnasol, ynglŷn â'r hyn a effeithiodd ar eu busnes dros y tair blynedd diwethaf. Y cwestiwn a ofynnwyd oedd:

'Beth oedd yr her fwyaf i'ch busnes yn ystod y tair blynedd diwethaf?'

Cafwyd rhai sylwadau a oedd yn ymwneud ag amgylchiadau a llwyddiannau unigol, megis ail-strwythuro busnes, cyflogi gweithwyr newydd, dod yn fwy effeithlon, neu ddefnyddio'r Rhyngwrdd yn fwy effeithiol. Yn ogystal, ac yn fwy negyddol, bu sylwadau am berchnogion busnesau a oedd yn heneiddio, a'r anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu, fel y trafodir yn Adran 3.6. Fodd bynnag, fel yn 2010, roedd yna duedd i'r sylwadau a oedd yn ymwneud â materion economaidd i ffocysu ar rai themâu blaenllaw. Yn bennaf ymhlith y themâu hyn oedd sgîl-ffeithiau'r arafu economaidd parhaus – y 'dirwasgiad' – ac effeithiau'r mesurau a gyflwynwyd i'w wrthwynebu. Gwelwyd bod cynghorau lleol wedi cael eu heffeithio yn enwedig:

Dim gwaith o'r Cyngor neu o Awdurdodau lechyd. Roeddwn i'n arfer cael contract gwaith o dros £1,000,000. Nawr, does dim gwaith oddi wrthyn nhw o gwbl - dim hyd yn oed i'w brisio!

²⁶ Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, (2013) *Arolwg Busnesau Bach 2012: Cyflogwyr BBaCh*, Adroddiad gan BMG Research, Ebrill, 2013

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod yna lai o arian yn yr economi, a oedd yn arwain at broblemau llif arian o ganlyniad i wariant cwsmeriaid is; costau cyffredinol uwch, yn enwedig ar gyfer tanwydd ac ynni; a, fel y dangosir yn Nhabl 3.20, diffyg buddsoddiad ariannol. Ffactorau negyddol tybiedig eraill oedd toriadau mewn gwasanaethau a chau swyddfeydd post gwledig. Mae'r dyfyniadau canlynol yn esbonio rhai o'r materion hyn:

Mae costau gormodol ar gyfer tanwydd ac egni, ac elw isel ar gynilion a buddsoddiadau yn lleihau cymhellion i ehangu cynhyrchu.

O ganlyniad i bolisïau'r Llywodraeth a'r banciau rydym wedi'i chael yn anodd yn y diwydiant adeiladu. Rydym eisiau cyflogi ond heb gefnogaeth y Llywodraeth, sut gallwn ni? Mae'r banciau'n dal pawb yn wystl.

Llif arian! Mae'r tywydd a'r economi wedi gwneud pethau'n araf iawn ac yn anodd. Dyw'r banciau heb fenthyg inni, rydym wedi lleihau'r nifer o staff ac mae gennym lai o gwsmeriaid yn dod trwy'r drws.

Brwydr barhaol yn erbyn gorbenion uwch, gyda gallu cyfyngedig i godi prisiau oherwydd ein bod yn ofni gostyngiad mewn gwerthiant.

Crebachiad yr economi leol a gwariant lleol mewn siopau manwerthu annibynnol.

Mae prisiau tanwydd yn cael effaith andwyol arnom. Mae'r ffaith ei fod yn 60 y cant o'n costau gweithredu yn ei wneud yn amhosibl braidd i ragweld costau o ganlyniad i brisiau newidiol a ffigurau uchel ar gyfer defnydd tanwydd oherwydd ein lleoliad.

I rai busnesau, megis lletya a busnesau eraill sy'n ymwneud â thwristiaeth, roedd cyfres o hafau â thywydd gwael (roedd yr arolwg yn rhagflaenu'r haf 'da' yn 2013) wedi gwaethygu effeithiau'r dirwasgiad, gyda llai o dwristiaid.

Roedd manwerthwyr lleol yn dal i dynnu sylw at yr effeithiau niweidiol ar fusnesau gwledig a achoswyd gan y nifer cynyddol o siopau yng Nghymru wledig sy'n eiddo i gwmnïau archfarchnad mawr:

Anhyfiant oherwydd gormod o archfarchnadoedd.

Gormod o archfarchnadoedd yn agor yn yr ardal, gan ladd siopau a busnesau bach.

Mae busnesau bach yn diflannu'n gyflym. Hon ydy fy 17eg flwyddyn yn masnachu ac mae fy nhrosiant wedi gostwng i beth roeddwn i'n cymryd pan ddechreuais. Rwy'n rhagweld ymhen deng mlynedd y bydd archfarchnadoedd wedi difa'r siopau bach annibynnol. Y Rhyngrwyd hefyd.

Ymhlith cwynion hirsefydlog eraill oedd dadleuon nad oedd llywodraeth ar unrhyw lefel – UE, DU, Cymru a lleol – yn helpu busnesau gwledig. Yn lle, ystyriwyd bod llywodraeth yn gosod rhwystrau ar ffurf rheoleiddio a biwrocratiaeth ormodol, yn enwedig o ran cynllunio ac iechyd a diogelwch. Yn ogystal, roedd gostyngiad canfyddedig mewn rhaglenni cymorth y llywodraeth i fusnesau gwledig:

Mwy o waith gweinyddu a gwaith papur, archwiliadau, llywodraethu clinigol, polisïau iechyd a diogelwch.

Mae mwy a mwy o'm hamser yn cael ei gymryd yn cwblhau biwrocratiaeth y llywodraeth.

Polisi tai fforddiadwy yn arafu'r broses o gael caniatâd a dechrau gweithio ar safleoedd.

Colli lwfans ar sail oedran i berchnogion busnes hŷn.

Mae diffyg cyfraniad o'n Cyngor lleol wedi bod yn un o'r prif resymau y mae cymaint o fusnesau wedi mynd allan o fusnes. Ardrethi busnes a rent cynyddol pan mae ymweliadau cwsmeriaid wedi gostwng 50 y cant.

Yn olaf, fel y nodwyd yn adroddiad arolwg busnes 2010, roedd yna sylwadau anghyson ynglŷn â'r Rhynggrwyd. I rai, agorwyd bydoedd newydd a ffyrdd newydd o wneud busnes. Ond roedd eraill yn dadlau bod y Rhynggrwyd yn eu tanbrizio a'u gyrru allan o fusnes.

3.11 Busnes a'r Amgylchedd

Roedd arolygon 2007 a 2010 yn cynnwys cwestiynau a ddyluniwyd er mwyn mynd i'r afael â'r perthnasau rhwng busnesau a'r amgylchedd, sydd wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth i faterion fel cynhesu byd eang, brig olew, dibyniaeth ar garbon a dihyssbyddu adnoddau ddod i'r amlwg. Yn dilyn, mae dadansoddiadau cymharol gan ddefnyddio data o 2007, 2010 a 2013.

Ailgylchu

Mae Tabl 3.26 yn cymharu cyfran y busnesau a gymerodd ran mewn ailgylchu yn 2013 gyda 2007 a 2010.

Tabl 3.26: Ailgylchu gan fusnesau

	Do	Dim
	%	%
2007	61	39
2010	81	19
2013	81	19% ²⁷

Cynhaliwyd y cynnydd yng nghyfrannau ailgylchu gan fusnesau a welwyd rhwng 2007 a 2010. Fel yn 2010, honnodd rhai busnesau gyfraddau ailgylchu o 100%, yn enwedig ar gyfer

²⁷ Ni chyfyngwyd yr ymateb hwn i'r rhai a ddewisodd yn syml i beidio ag ailgylchu oherwydd mae busnesau yn amrywio o ran faint o wastraff y mae modd ei ailgylchu a gynhyrchir.

deunyddiau fel papur, gwydr a chardfwrdd. Cynhaliwyd llawer o'r math hwn o ailgylchu drwy awdurdodau lleol: naill ai drwy gasglu neu drwy ymweld â safle ailgylchu awdurdod lleol.²⁸

Y prif reswm a roddwyd ar gyfer peidio ag ailgylchu gan yr un rhan o bump nad oedd yn cymryd rhan oedd nad oeddent yn cynhyrchu gwastraff y mae modd ei ailgylchu. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys costau gormodol a diffyg mynediad at gyfleusterau ailgylchu.

Mentrau ymwybyddiaeth amgylcheddol

Mae Tabl 3.27 yn dangos y cyfrannau o fusnesau a arolygwyd a gymerodd ran mewn ystod benodol o fentrau amgylcheddol. Roedd y mentrau hyn yr un peth â'r rhai y soniwyd amdanynt yn arolygon 2007 a 2010, ond ni soniwyd am 'Ddraig Werdd' yn 2007.²⁹ Mae'r tabl yn cymharu 2013 gyda 2007 a 2010.

Tabl 3.27: Cyfran y Busnesau'n cymryd rhan mewn Mentrau Amgylcheddol

Menter	2007	2010	2013
	%	%	%
Plannu coed	11	12	11
Cydbwysu carbon	3	4	4
Prynu ynni gwyrdd	4	4	5
Defnyddio dyfeisiau ynni isel (e.e. bylbiau golau)	47	58	38
Cynhyrchu ynni ar y safle (e.e. paneli haul, tyrbinau gwynt)	4	6	9
Draig Werdd	Ni ofynnwyd	4	3
Menter arall (gweler isod)	5	4	6

Gyda dau eithriad, roedd y cyfraddau'n gyson dros y tri arolwg, gyda newidiadau wedi eu cyfyngu i un neu ddau bwynt canran. Gallai'r dirywiad o 20 pwynt canran yn nefnydd dyfeisiau ynni isel fod yn effaith uniongyrchol o'r dirwasgiad ac amharodwydd i fuddsoddi er mwyn arbed ar ddefnydd o ynni:

Dyw'r rhan fwyaf ddim yn berthnasol i ni - ond rydym yn brwydro i oroesi beth bynnag – mae pob ymdrech tua'r cyfeiriad hwn.

Diffyg buddsoddi a chostau ychwanegol dros ddulliau traddodiadol.

²⁸ Gwelwyd cynnydd parhaus ers 2000-01 yng nghanran gwastraff bwrdeistrefol awdurdodau lleol (ac eithrio cerbydau a adawyd) a aildddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd yng Nghymru, gydag ychydig dros 52 y cant o wastraff wedi'i aildddefnyddio/ailgylchu/compostio yn ystod 2012-13. [Ystadegau LIC Tachwedd 2013]

²⁹ Gwnaeth pum busnes yn 2007 sôn am aelodaeth Draig Werdd, sef dyfarniad gan Rwydwaith Ardal i'r busnesau hynny'n sy'n cadw rhai safon amgylcheddol benodol.

Mae ein defnydd o ynni'n isel, ni fyddai'r arbedion yn fawr.

Roedd cynhyrchu ynni ar y safle wedi codi tri phwynt canran (pum pwynt canran ers 2007). Roedd y cynnydd graddol mewn gosod a defnyddio cyfarpar a oedd yn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy, megis haul a gwynt, wedi cyd-fynd â chynnydd tebyg a recordiwyd gan arolwg Cartrefi Arsyllfa Wledig Cymru 2013, sy'n awgrymu bod y cyfrifiad rhwng costau cyfalaf cymharol uchel ar gyfer gosod a'r adenillion i gynilion cartrefi o bosib yn dechrau troi o blaid cynilion cartrefi.

Roedd y mentrau amgylcheddol eraill a gymerwyd gan fusnesau yn cynnwys boeleri biomas, defnydd o fiodanwydd, peiriannau tanio mewnol olew llysiau, llosgwyr coed gan ddefnyddio torion pren, llosgwyr olew gwastraff, a phympiau gwres awyr i awyr. Roedd ffyrdd eraill o gadw gwres yn cynnwys ynysu manyldeb uchel ar gyfer adeiladau busnes. Roedd rhai busnesau'n cadw dŵr glaw i'w ddefnyddio naill ai ar gyfer eu gweithgareddau busnes, er enghraifft tyfu planhigion, neu i fflysio'r toiled a defnyddiau eraill heblaw am yfed. Purwyd carthffrwd i'w ddefnyddio fel bwyd i blanhigion.

Roedd yna dri phrif reswm pam nad oedd busnesau wedi cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol. Yn gyntaf, ystyriwyd ei fod yn rhy ddrud. Yn ail, roedd rhai ymatebwyr wedi dadlau yn erbyn bodolaeth unrhyw fath o argyfwng amgylcheddol megis cynhesu byd eang. Yn drydydd oedd y farn sinigaidd na fyddai unrhywbeth a wnâi eu busnes, o ran arfer da amgylcheddol, yn gwneud unrhyw wahaniaeth, yn enwedig o ystyried y ffyrdd o fyw sy'n niweidiol i'r amgylchedd a ddilynrir gan grwpiau elitaidd yn y gymdeithas, fel y'i gelwir.

Defnyddio Ynni ymhlith Busnesau

Fel rhan o'r arolygon busnes, gofynnwyd i ymatebwyr am newidiadau yn nefnydd eu busnes o ynni. Mae Tabl 3.28 yn cymharu data am Ddefnyddio Ynni Ymhlith Busnesau o arolygon 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.28: Defnyddio Ynni ymhlith Busnesau

	2007	2010	2013
	%	%	%
Lleihawyd	17	18	17
Cynyddwyd	29	25	27
Aros yr un peth	54	57	56

Roedd y data'n gyson ar draws y tri arolwg, gyda newidiadau bach yn unig. Fodd bynnag, roedd cyfran y busnesau a oedd wedi cynyddu eu defnydd o ynni yn aros yn llawer mwy na'r busnesau hynny oedd wedi lleihau eu defnydd.

Y prif resymau a roddwyd am leihad mewn defnydd o ynni oedd mwy o effeithlonrwydd, o ran gwresogi, ynysu a defnydd, a chrebachiad ym maint y busnes. I'r gwrthwyneb, fel yn 2010, dadleuodd ymatebwyr a wnaeth ehangu eu busnes fod ehangu wedi cynyddu eu defnydd o ynni. Yn benodol, tynnwyd sylw at gostau ynni uchel systemau cyfrifiadurol a gwybodaeth, a chostau rhyfeddol o ddrud y swyddfa heb bapur.

Y Berthynas rhwng Materion Amgylcheddol a Busnes

Archwiliodd y cwestiynau olaf yn yr adran am yr amgylchedd y berthynas rhwng materion amgylcheddol a busnes. Gofynnwyd i fusnesau gytuno neu anghytuno gyda dau osodiad – un a ofynnodd a oedd rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes yn ormodol, a'r ail a ofynnodd a ddylai fod cymhellion ariannol ar gyfer arferion busnes sy'n ecogyfeillgar. Mae Tabl 3.29 a Thabl 3.30 yn dangos y datganiadau hyn ac yn cymharu canlyniadau 2007, 2010 a 2013.

Tabl 3.29: Mae rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes yn ormodol

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
	%	%	%	%	%
2007	12	17	52	12	7
2010	12	16	48	13	8
2013	14	14	51	12	9

Roedd y data bron yn unfath ar draws y tri arolwg. Maent yn dangos y cafwyd barnau sydd wedi eu pegynnu o ran rheoleiddio amgylcheddol, gyda hanner y busnesau'n nodi eu hancicrwydd, dros chwarter ohonynt o'r farn nad oedd rheoliadau amgylcheddol yn llethu busnes yn ormodol, ac ychydig llai na chwarter o'r rhai a arolygwyd yn cytuno â'r gosodiad hwn.

Tabl 3.30: Dylai fod cymhellion ariannol ar gyfer arferion busnes sy'n ecogyfeillgar

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
	%	%	%	%	%
2007	5	5	19	32	39
2010	6	3	20	32	39
2013	5	4	24	32	35

Unwaith eto roedd tebygolrwydd dros y tri arolwg. Y newid mwyaf oedd y newid o bedwar pwynt canran, yn 2013, o 'cytuno'n gryf' i 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', a oedd yn dangos bod yna lai o alw am gymhellion ariannol, ac ansicrwydd cynyddol o ran y cymhellion hyn.

3.12 Sylwadau cyffredinol gan fusnesau

Gwahoddwyd busnesau i gyflwyno sylwadau ychwanegol. I raddau helaeth, roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi ymhelaethu nifer o'r themâu a drafodwyd yn Adran 3.6, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â bygythiadau i fusnesau yng Nghymru wledig. Fe'u dominyddwyd gan ofidion ynglŷn â'r dirwasgiad economaidd a'i effeithiau niweidiol ar fusnesau gwledig yng Nghymru. Yn gyffredinol, dadleuwyd bod yr hinsawdd economaidd ehangach o doriadau a llymder, toriadau i wasanaethau, cyflogau isel a threthi uchel yn cael effaith negyddol ddifrifol ar fusnesau yng Nghymru wledig. Ffactorau eraill oedd yn gwaethygu'r sefyllfa oedd costau uchel a chynyddol tanwydd, cludiant ac ynni. Mae'r dyfyniadau canlynol a ddewiswyd, sy'n air am air lle bo'n bosibl, yn dangos rhai o'r pwyntiau penodol a wnaed.

Ystyriwyd bod cyfraddau TAW yn rhy uchel ac roedd y trothwy cofrestru ar gyfer TAW yn rhy isel:

Mae TAW mwy neu lai wedi cau'r busnes. Mae'r rhan fwyaf o'r elw yn mynd iddyn nhw.

TAW yn lladd busnesau bach.

Dylid codi'r trothwy TAW yn sylweddol, neu dylid cyflwyno lefelau gwahanol. Rydym yn talu £1 o bob £5 yr ydym yn ei ennill oherwydd TAW.

Er hoffem ehangu, ni allwn fynd uwchben y trothwy TAW. Buasem yn dod yn rhy ddrud i greu incwm - rydym yn ddarparwyr gwasanaeth a does dim gwerth mewn bod yn gofrestredig ar gyfer TAW.

Mae'n gas gen i drethi! Mae TAW yn gorfodi busnesau i ychwanegu 20 y cant at brisiau. Diddymwch TAW!

Ymddengys fod yna faterion penodol o ran TAW, tollau a threthi i'r fasnach drwyddedig:

Fel gydag unrhyw fusnes tafarn, rydym wedi bod yn darged hawdd ar gyfer cynyddu tollau a TAW. Mae'n dinistrio ein treftadaeth. Rydym yn un o gyflogwyr mwyaf y DU ond ymddengys fod y bobl sydd mewn grym yn anwybyddu'r ffaith hon. Ystyrir alcohol yn beth cythreulig bellach.

Mae tai tafarn yn dirywio ar gyflymdra brawychus. Mae tollau cwrw, dirwasgiad, archfarchnadoedd a'r gwaharddiad ar ysmygu yn cyfrannu at hwn. Mae'r dirwasgiad yn creu problemau mawr. Mae pobl yn aros gartref; yn ysmygu ac yn yfed gartref.

Mae masnachu fel tafarn yn parhau i fod yn anodd. Mae trethi ac ardrethi yn cyfrif am 50 y cant o'n trosiant!

Dadleuwyd bod ardrethi busnes yn rhy uchel, a bod y fformiwla er mwyn eu hasesu'n annheg. Er mwyn lleddfu'r baich ar fusnesau gwledig yng Nghymru, roedd angen cynllun rhyddhad ardrethi:

Byddai'n dda gennyf pe na fyddai'r cyngor a'r Cynulliad yn gwario arian fel baent wedi ennill y loteri Ewro! Torrwch ardrethi busnes!

Pe na fyddai'n rhaid i mi dalu £6,000 mewn ardrethi busnes, byddwn yn gallu cyflogi staff. Byddai hwn yn helpu'r economi ac yn creu mwy o swyddi. Nid wyf yn gymwys ar gyfer cymorth ardrethi busnes, oherwydd mae maint fy siop yn rhy fawr. Mae'r ffordd y caiff ardrethi busnes eu cyfrif yn wirion. Nid ydynt yn edrych ar drosiant, ond yn hytrach ar faint yr adeilad. Rwy'n ystyried fy hun yn fusnes bach. Gallwn fod drws nesa i fusnes sy'n ennill miliynau, ond oherwydd eu bod mewn adeilad bach mae'n bosibl y byddant yn cael cymorth.

Diddymwyd fy nghymorth ardrethi gwledig pum mlynedd yn ôl. Mae fy ardrethi nawr yn 100 y cant yn fwy nag oedden nhw yn ystod y dirwasgiad gwaethaf a welwyd gan y diwydiant. Mae hyn yn warthus.

Does dim cymorth ar gyfer ardrethi busnes i fusnesau fel fy un i, rydym yn talu £15,000 a mwy pob blwyddyn, yn y cyfnod economaidd hwn - mae'n ormod!

Yn ogystal ag ardrethi busnes a TAW, nodwyd bod costau cynyddol gorbenion, yn enwedig prisiau ynni a thanwydd, yn broblem annatrys i fusnesau gwledig.

Mae costau cynyddol yn mynd â'r elw i gyd, yn enwedig trydan a nwy.

Mae costau trydan yn faich mawr ar ein hysgwyddau, a heb ffordd o leihau'r gost hon rydym yn credu mai hwn fydd un o gostau uchaf y busnes.

Ystyriwyd nad oedd llywodraeth ar y lefel genedlaethol a lleol yn ddefnyddiol i fusnes, a beirniadwyd cymorth busnes. Dadleuwyd bod gormod o reoleiddio busnes a gormod o ddeddfwriaeth, yn ogystal â methiant i hyrwyddo ardaloedd gwledig a phentrefi mewn perthynas â thwristiaeth, yn ogystal â lefelau isel o fuddsoddi yng Nghymru wledig. Mae'r dyfyniadau canlynol yn ymdrin â'r materion hyn ac, mewn rhai achosion, yn gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella:

Sefydlu darparwr band eang am ddim i fusnesau. Darparu canolfan weinyddu ar ystadau diwydiannol y gall pob busnes ei defnyddio.

Yn syml, mae cymorth i fusnesau bach yn dda i ddim! Nid yw'r ymgynghorwyr yn darparu 'cyngor' go iawn, maent yn eich cyfeirio at wybodaeth yn unig - maent yn fawr well na chwilotwyr Google! Byddwch yn fwy radical ac ymarferol. Darparwch bethau go iawn os ydych am helpu busnesau bach. Cyfrifyddion, canolfannau gweinyddu, dylunio gwe a gwe-letya. Does dim angen canolfannau (dim)cyngor busnes arnom. Ond dychmygwch pe bai pobl ifanc yn cael eu cyflogi fel dylunwyr gwe a ariannwyd gan LICC, a bod yna gwmni gwe-letya yn eiddo cyhoeddus y gallai busnesau bach ei ddefnyddio. Neu gyfrifyddion cyfunol lleol yn rhoi ychydig o oriau bob wythnos i bob busnes bach yn eu hardal - DYNA fyddai cymorth busnes go iawn!

Yn ei chael yn anodd dod o hyd i gysondeb o ran cymorth LIC i fusnesau bach. Ymddengys fod adrannau a chynlluniau yn mynd a dod.

Yn ôl pob golwg, nid yw cyllid a chymhellion eraill rydym wedi eu gweld yn cyflawni unrhywbeth. Llauer o siarad, cyfarfodydd, darnau o bapur, ond y gwir yw bod angen i'r rhan fwyaf ohonom gael cymorth i gymryd cyfrifoldeb dros faes sy'n wendid.

Dadleuwyd bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn dueddol o gefnogi busnesau amaethyddol a busnesau mwy yn unig, a bod angen cymorth a mentrau cychwyn busnes ar holl fusnesau gwledig, yn enwedig cwmnïau bach neu ganolig:

Byddai'n dda gennyf pe bai'r awdurdodau lleol a'r llywodraeth yn helpu microfusnesau fel fy un i o ran gwaith papur a rheolau a rheoliadau.

Mae'n fy nghythraddo bod y rhan fwyaf o arian grantiau a chymorthdaliadau yn mynd i ffermio. Mae angen cymorth ar fusnesau eraill!

Er gwaethaf pwyslais cryf LIC ac awdurdodau lleol ar gynorthwyo busnesau gwledig, nid ydym wedi cael budd gan nad ydym yn fusnes amaethyddol neu'n fusnes sy'n ymwneud â hamdden a thwristiaeth. Dylai fod cefnogaeth ar gael i HOLL fusnesau gwledig.

Does gan lywodraeth Cymru ddim ots am fusnesau bach a chanolig a does ganddi ddim syniad am effeithiau costau tanwydd cynyddol, ardrethi busnes ayyb. Cyn hir bydd mwy a mwy o fusnesau'n cau a mwy o bobl yn hawlio budd-daliadau.

Wedi sylwi bod cymorth i fusnesau gwledig (o ran grantiau) yn loteri cod post yn ôl pob golwg. Yn Sir Gâr ymddengys fod yna ystod eang o gynlluniau sy'n cynorthwyo busnesau ond yng Ngheredigion does dim cymaint.

Mae fy agwedd negyddol tuag at asiantaethau cymorth busnes LIC yn deillio o'r ffaith nad yw'r un o'i gweithwyr yn ymddangos ei fod wedi dod o gefndir busnes go iawn ei hun, na bod ganddo unrhyw syniad o'r hyn rydym yn ei wneud.

Roedd awgrymiadau fod gormod o sylw yn cael ei roi i De Cymru, ar draul weddill y wlad:

Mae llawer mwy o arian wedi'i anelu at gwmnïau yn Ne Cymru o gymharu â gweddill Cymru. Dylai'r cylchgrawn 'Gwnaed yng Nghymru' fod yn 'Gwnaed yn Ne Cymru.'

Mae mentrau Llywodraeth Cymru wedi eu ffocysu'n ormodol ar berfeddwlad Llafur yng Nghymoedd De Cymru. Ychydig iawn o bethau defnyddiol sy'n cyrraedd mor bell i fyny tua'r gogledd â Môn a Gwynedd.

Targed arall oedd yr angen am a chostau gormodol tybiedig deddfwriaeth a dogfennaeth ddwyieithog:

Os byddai'r arian a warir ar ddyblygu popeth yn Gymraeg yn cael ei ddefnyddio i gael pobl mewn gwaith neu i gefnogi busnesau bach byddai'r genedl yn fwy ffyniannus.

O ran rôl Llywodraeth Cymru ym maes telathrebu, dadleuwyd bod safon wael cyfathrebu yn gyffredinol a band eang yn benodol yn fygythiad difrifol i fusnesau yng Nghymru wledig, o ystyried y twf mewn gweithgareddau busnes a oedd yn ymwneud â'r Rhyngwrdd, a'u pwysigwyd i fusnesau:

Byddai busnes yn gwella pe bai wi-fi a band eang yn cael eu gwella.

Ddim yn gallu aros tan 2015/16 ar gyfer band eang gwell. Rwy'n bwriadu cau'r busnes os oes rhaid inni aros tair blynedd.

Rwy'n ariannu fy hun, ac rwy'n dra brwdfrydig. Rwy'n credu fy mod yn darparu gwasanaeth o safon uchel OND mae'r lefel aruthrol o isel o ran gwasanaeth band eang yn rhwystro fy nghynnydd, ac yn llesteirio fy ngwaith dyddiol drwy fy arafu. Rwy'n fodlon goddef y teithio sy'n rhaid i mi wneud, ond mae'n bosibl mai'r gwasanaeth Rhyngwryd bydd yn fy achosi i adael.

Roedd yna ryw faint o feirniadaeth anghymedrol o Lywodraeth Cymru, fel y dyfyniad hwn:

Yn gyffredinol, rwy'n ystyried Cynulliad Cymru yn haen annymunol arall o foch wrth y cafn, sydd wedi eu hariannu gan drethdalwyr.

Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o fethiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion a nodwyd mewn arolygon blaenorol.

Cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol

Gofynnodd y cwestiwn olaf yn yr arolwg i fusnesau a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. Roedd gan arolwg 2010 gyfradd gytuno o 41 y cant. Yn 2013, o'r 1,583 o fusnesau a arolygwyd, roedd 606 (38 y cant) yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol.

Adran 4: Crynodeb a Diweddgllo

Mae'r adran olaf hon o'r adroddiad yn cyfuno'r dadansoddiad yn Adran 3 ac yn crynhoi'r canlyniadau, er mwyn rhoi sylw i'r pedwar amcan ymchwil a nodwyd yn Adran 2.

Amcanion yr arolwg oedd:

1. Archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru.
2. Archwilio a mesur agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, materion economaidd ac amgylcheddol.
3. Darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol.
4. Dysgu pa newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau gwledig Cymru.

Yn yr adran hon, caiff canlyniadau'r dadansoddiad eu dadadeiladu, eu hail-gydysod a'u trafod o dan dri phennawd thematig:

1. Cyflwr gweithgareddau busnes heblaw ffermydd yng Nghymru wledig.
2. Agweddau ac argraffiadau perchnogion busnesau yng Nghymru wledig mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig.
3. Y dirwasgiad a'i effeithiau.

4.1 Cyflwr gweithgareddau busnes heblaw ffermydd yng Nghymru wledig

Roedd cyflwyno categorïau newydd Dosbarthiad Diwydiannol Safonol ers 2010 wedi arwain at rywfaint o ailddosbarthu o ran mathau o fusnesau yng Nghymru wledig. Yn gyffredinol, roedd yna symudiad ymddangosol i ffwrdd o rai o gategorïau 2010. Felly mae'n bosibl bod cyflwyno categorïau newydd, yn benodol categorïau Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol; Gweithgareddau Gwasanaeth Gweinyddol a Chymorth; a Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill, wedi cyfrif am ostyngiadau o dri phwynt canran yn Addysg ac wyth pwynt canran yng Ngweithgareddau Gwaith Cymdeithasol ac Iechyd Pobl. Fodd bynnag, roedd rhai categorïau wedi cynnal neu hyd yn oed wedi cynyddu eu cyfradd. Roedd y rhain yn cynnwys Gweithgareddau Gwasanaethau Llety a Bwyd, a gynyddodd pedwar pwynt canran, ac Adeiladu. Er ei fod wedi dirywio pum pwynt canran i 20 y cant, roedd Cyfanwerthu a Manwerthu yn dal i fod y categori galwedigaethol mwyaf poblog.

Roedd pump y cant (75 busnes) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg wedi dechrau ers yr arolwg diwethaf yn 2010 ac roedd 29 y cant wedi eu sefydlu ers 2000. Yn 91 y cant, roedd y mwyafrif helaeth o fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg wastad wedi bod yng Nghymru wledig. O'r rhai a oedd wedi symud i Gymru wledig, roedd y rhan fwyaf wedi symud o Loegr yn hytrach nag ardaloedd trefol yng Nghymru. Roedd y cyfrannau ar gyfer perchnogaeth a lleoliad hanesyddol yn debyg i'r rhai yn 2010.

Roedd cofrestru ar gyfer TAW wedi cynyddu i 68 y cant ond roedd y gyfran o fusnesau nad oeddent wedi cofrestru ar gyfer TAW wedi cynyddu hefyd, i 28 y cant. Gellid rhoi cyfrif am hwn gyda'r cynnydd yn y gyfran o fusnesau a wnaeth ymateb i'r cwestiwn TAW yn yr arolwg yn 2013, gyda dim ond pedwar y cant ddim yn ymateb.³⁰

O ran rhyw perchnogion busnesau, parhaodd y newid graddol yn y gymhareb gwrywod/menywod tuag at fwy o berchnogion a oedd yn fenyw, gyda 67 y cant yn wryw a 30 y cant yn fenyw (ni chafwyd ymateb gan dri y cant). Roedd hwn yn cymharu â 72 y cant yn wryw a 28 y cant yn fenyw yn 2010 a 79 y cant yn wryw a 21 y cant yn fenyw yn 2007.

O ran oedran, mae'r dadansoddiad yn dangos fod perchnogion busnesau'n dueddol o fod yn hŷn. Roedd llai yn y grŵp oedran ifancaf (i fyny at 39) a thra roedd y grŵp oedran 40-64 hefyd wedi dirywio pedwar pwynt canran roedd cyfran y perchnogion a oedd yn 65 mlwydd oed a mwy wedi cynyddu chwe phwynt canran: h.y. roedd perchnogion a oedd yn y grwpiau ifancaf neu ganolig o'r blaen wedi symud i'r grŵp hynaf. Hefyd, roedd y newid hwn o ran oedran yn fwy amlwg rhwng 2010 a 2013 na rhwng 2007-2010.

Ystyrir cymwysterau a hyfforddiant yn agweddau pwysig o broffil perchennog busnes. Gofynnwyd y cwestiwn yn ymwneud a chymwysterau ym mhob un o'r pedwar arolwg. Dros y cyfnod o naw mlynedd a gwmpaswyd gan y pedwar arolwg ymddengys fod meddu ar radd uwch, a gyrhaeddodd ei uchafbwynt yn 2007 a 2010, wedi dechrau newid tuag i lawr. Roedd graddau a lefelau O/TGAU wedi aros yn gymharol gyson a thra bu gostyngiad bach yn 2007, gellid dweud yr un peth am lefelau A. Ymddengys fod y lleihad yn nifer y perchnogion busnesau nad oedd ganddynt gymwysterau, gwelliant a nodwyd yn adroddiad 2010, wedi lefelu. Dros yr arolwg cyfan yn 2013, roedd 14 y cant o berchnogion busnesau wedi ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac roedd gan 16 y cant o fusnesau weithwyr a wnaeth ymgysylltu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Er ar 27 y cant roedd yna gynnydd bach o gymharu â 2010 (25 y cant), parhaodd y lefel isel o hyfforddiant busnes ffurfiol ymhlith perchnogion busnesau. Ni ddychwelodd hyfforddiant busnes ffurfiol i'r 28 y cant a welwyd yn 2007, canran a ystyriwyd yn rhy isel ar y pryd. Fel yn 2007 a 2010, cadarnhawyd agwedd perchnogion busnesau at werth hyfforddiant busnes ffurfiol gan elfennau eraill o'r dadansoddiad. Er enghraifft, roedd cynnydd yng nghyfrannau'r perchnogion busnesau nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn gwerth hyfforddiant, a'r perchnogion busnesau nad oeddent yn ystyried bod unrhyw werth iddo. Roedd dadansoddiadau eraill yn ategu'r casgliadau hyn. Roedd lleihad o chwe phwynt canran o gymharu â 2010 mewn aelodaeth o sefydliadau proffesiynol, busnes neu fasnach, gyda 45 y cant yn dweud eu bod yn aelodau yn 2013; roedd 14 y cant yn defnyddio cynllun marchnata, lleihad o dri phwynt canran ers 2010; ac, yn bwysicaf oll, dim ond 24 y cant o fusnesau oedd yn defnyddio cynllun busnes, a oedd yn lleihad o naw pwynt canran o gymharu â 2010.

³⁰ Er cymhariaeth, roedd nifer y busnesau gweithredol (hynny yw, busnesau a oedd gyda naill ai trosiant neu gyflogaeth) yng Nghymru yn 90,706 yn 2007, 90,435 yn 2010 a 87,985 yn 2012 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gan StatsCymru ystadegau ar ei chyfer) (gweler <https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/ActiveBusinessEnterprises-by-Area-Year>).

Er ar 69 y cant o gymharu â 67 y cant, roedd gan fwy o fusnesau weithwyr nag yn 2010, roedd y gyfradd o weithwyr fesul busnes yn is nag yn 2010. Gan eu cymryd dros gyfanswm y nifer a arolygwyd, roedd y gyfradd o weithwyr fesul busnes yn is nag yn 2007 a 2010. Roedd y data hwn yn tynnu sylw at duedd tuag i lawr o ran pobl a gyflogwyd gan fusnesau yng Nghymru wledig, a ddaeth yn fwy serth ers 2010. Yn wir, gan ddefnyddio rhifau crai, yn 2007 ac yn 2010, cyflogwyd mwy o bobl gan lai o fusnesau nag yn 2013. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn dangos fod categorïau cyflogaeth lawn-amser wedi colli mwy na chategorïau cyflogaeth ran-amser neu achlysurol.

Roedd newid gweladwy tuag at gyflogi mwy o bobl leol. Dangosodd arolwg 2013 gynnydd o 20 pwynt canran yn nifer y gweithwyr oedd yn byw o fewn 10 milltir, o gymharu â'r 64 y cant a recordiwyd yn 2010. Roedd yr arolwg yn dangos fod saith y cant (103 busnes) o gyfanswm y nifer a arolygwyd yn cyflogi gweithwyr nad oeddent yn wladolion y DU ac roedd 36 y cant o'r 103 busnes hyn yn cyflogi gweithwyr a gyrhaeddodd y DU yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ar 47 y cant, daeth y rhan fwyaf o wledydd A8 Ewrop (Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Poland, Slofacia a Slofenia); 39 y cant o wledydd eraill yn Ewrop; ac 14 y cant o weddill y byd. Roedd y cydbwysedd rhwng y ddau ryw ymhlith gweithwyr yn 70 y cant yn wryw a 30 y cant yn fenyw. Roedd gweithwyr benyw yn fwy niferus mewn categorïau cyflogaeth ran-amser ac achlysurol.

Mewn gwrthgyferbyniad â'r agwedd gynyddol blwyfol sydd gan fusnesau gwledig tuag at eu gweithwyr, ymddengys fod y busnesau hyn yn edrych ymhellach i ffwrdd am gwsmeriaid a chyflenwyr, o gymharu â 2007 a 2010. Yn ddadleuol, o ran cwsmeriaid mae'n bosib fod hwn wedi'i ysgogi gan y niferoedd is o gwsmeriaid a nodwyd, sef un o ganlyniadau'r hinsawdd economaidd bresennol, yn ôl ymatebwyr. Ac o ran cyflenwyr, mae'n bosib ei fod wedi'i ysgogi gan gystadleurwydd cynyddol ymhlith cyflenwyr a'r ffaith fod archebu gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy hawdd. Yn fwy cyffredinol, gellid dadlau bod ehangu sylfaeni cwsmeriaid a chyflenwyr wedi'i ysgogi gan ddefnydd cynyddol o'r Rhyngrwyd ac arbenigedd busnesau gwledig i fanteisio ar botensial y Rhyngrwyd at ddibenion busnes.

4.2 Agweddau ac argraffiadau perchnogion busnesau yng Nghymru wledig mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig

Llywodraeth Cymru a'r asiantaethau cymorth Busnes

Yn anffodus, roedd tebygolrwydd rhwng y pryderon a fynegwyd gan fusnesau yn arolwg 2013 o ran eu perthynas â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chymorth i fusnesau gwledig, o gymharu ag arolygon 2007 a 2010. Roedd llywodraeth ar lefel y DU, Cymru ac ar lefelau lleol yn dal i gael ei hystyried yn aneffnyddiol i fusnes, a dadleuwyd bod gormod o reoliadau busnes a gormod o ddeddfwriaeth, yn ogystal â methiant i hyrwyddo ardaloedd gwledig mewn perthynas â thwristiaeth; a diffyg buddsoddi'n gyffredinol yng Nghymru wledig. Dadleuwyd bod Llywodraeth Cymru'n rhoi gormod o bwyslais ar fusnesau mawr ac nad oedd yn gwneud digon i gynnal BBaChau yng Nghymru wledig. Roedd materion penodol a phroblemus y tynnwyd sylw iddynt gan berchnogion busnesau yn cynnwys costau parcio, a oedd yn rhwystro cwsmeriaid; ardrethi busnes uchel; a chostau cynyddol tanwydd ac ynni. Roedd rhai busnesau yn ystyried bod y gost i lywodraeth a busnesau o weithredu deddfwriaeth iaith Gymraeg yn ormodol ac yn ddiangen. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod

busnesau mewn ardaloedd gwledig, oherwydd eu pellenigrwydd, yn arbennig o agored i agweddau negyddol yr hinsawdd economaidd bresennol megis toriadau gan y llywodraeth a chyllidebau darbodus, mwy o TAW, toriadau mewn gwasanaethau, cyflogau isel, a chostau cynyddol tanwydd, cludiant ac ynni.

Roedd y tuedd a welwyd yn adroddiad 2010 tuag at israddio'r asiantaethau cefnogaeth a chynghor wedi parhau. Yn ddadleuol, y canlyniadau pwysicaf oedd y graddau uchel ar gyfer 'erioed wedi'i ddefnyddio'. Roedd y rhain yn uwch nag yn 2010 ym mhob achos, o rhwng tri phwynt canran (Llywodraeth Cymru) a 13 pwynt canran (Asiantaethau Menter) a chyrhaeddwyd y pwynt lle, heblaw am Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru - a chyrhaeddodd y rhain 50 y cant - roedd dros hanner y busnesau a arolygwyd ddim yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth a chynghor hyn.

Fel yn yr arolygon blaenorol, beirniadwyd gwasanaethau eraill hefyd. Roedd tuedd i fusnesau edrych yn negyddol ar asiantaethau recriwtio ffurfiol a mynegi pryderon ynghylch ansawdd gweithwyr posibl a awgrymir ganddynt. Roedd rhwydweithiau anffurfiol yn dal i gael eu hystyried y cyfrwng mwyaf effeithiol ar gyfer hysbysebu, mynediad at waith a recriwtio gweithwyr. Yn ddadleuol, er bod busnesau gwledig yn edrych ymhellach ar gyfer cwsmeriaid a chyflenwyr yn ôl pob golwg, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ynglŷn ag anawsterau o ran recriwtio staff medrus; y nifer cynyddol o bobl sy'n chwilio am waith; a'r flaenoriaeth a roir i rwydweithiau anffurfiol a theuluol yn awgrymu bod yr elfennau i gynnal economi sgiliau isel a chyflogau isel, a nodwyd mewn gwaith blaenorol gan Arsyllfa Wledig Cymru, yn dal i fod ar waith yng Nghymru wledig.

O ran canfyddiadau busnesau o bolisïau Llywodraeth Cymru, ychydig iawn a wnaeth newid ac roedd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno bod polisïau Llywodraeth Cymru'n helpu i greu swyddi; i greu swyddi ansawdd uwch; i ysgogi twf economaidd; i adnewyddu cymunedau; i wella hyfforddiant sgiliau; neu i wella cymorth busnes. Yn 2013, dim ond chwech y cant o'r busnesau a arolygwyd oedd yn ymwybodol o'r strategaeth gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Roedd hwn yn is na'r naw y cant a recordiwyd yn 2010.

Band eang a'r Rhyngrwyd

Roedd data ansoddol yn dangos pa mor werthfawr, ac mewn rhai achosion pa mor anhepgor, oedd y Rhyngrwyd a band eang i fusnesau gwledig yn 2013. Yn feintiol, gwelwyd cynnydd o ran cysylltiadau a defnydd. Fodd bynnag, mae rhai busnesau o hyd (pump y cant) sydd â mynediad at wasanaeth band eang ond nad sydd wedi gwneud defnydd ohono. Yn anffodus, roedd bodlonrwydd cwsmeriaid busnesau wedi tueddu i ddirywio ers 2010. Esboniad posibl a ategir gan sylwadau rhai ymatebwyr, oedd gyda'r gwelliannau tybiedig mewn argaeledd a chyflymder band eang bu cynnydd mewn disgwyliadau cwsmeriaid na gafodd ei fodloni bob tro.

Perthynas â'r Amgylchedd

I raddau, roedd lefelau pryderon amgylcheddol ymhlith busnesau gwledig wedi sefydlogi. Er enghraifft, ar 81 y cant roedd yr un gyfradd o fusnesau wedi cymryd rhan mewn ailgylchu ag yn 2010. Ac roedd y cyfrannau o fusnesau a gymerodd ran mewn mentrau amgylcheddol yn debyg yn 2010 a 2013. O ran yr amgylchedd gwledig cyffredinol, yn hytrach na nodi manteision sy'n bur economaidd, dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y prif fanteision a gynigir gan leoliad gwledig yn ymwneud â ffordd o fyw a'r amgylchedd. Roedd y manteision hyn yn cynnwys harddwch naturiol llawer o'r Gymru wledig; tawelwch a heddwch; ffordd fwy ymlaciol o fyw; amodau teithio a chymudo gwell; a chymunedau agosach. Cydnabuwyd bod gan y ffactorau hyn o ran ffordd o fyw a'r amgylchedd potensial i gryfhau busnesau gwledig gan beri buddion economaidd mwy uniongyrchol, yn enwedig o ran denu ymwelwyr a thwristiaid.

Fodd bynnag, ystyriwyd bod gan ynysu lleoliadau gwledig gostau. Roedd y rhain yn cynnwys teithio pellterau hir; yr angen i fod â cherbyd personol; ffyrdd gwael, rhai'n rhy gul ar gyfer tryciau mawr modern; anhygyrchedd, yn enwedig os oes tywydd garw; gwasanaethau cyfyngedig; prinder nwyddau o ansawdd ar gael yn lleol; ardrethi busnes gormodol; a chostau tanwydd uchel. O ran yr economi lleol, gwelwyd bod gan y cymunedau agosach tybiedig, perthnasau agosach gyda chwsmeriaid a chyflenwyr, a rhwydweithiau teuluol a chymunedol y posibilrwydd o achosi plwyfoldeb negyddol a oedd o bryd i'w gilydd yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg; ac economi incwm isel, sgiliau isel, gyda phrinder tybiedig o bobl â sgiliau neu bobl leol briodol ar gael i'w cyflogi. Ystyriwyd bod poblogaethau lleol bach yn ffactor o ran marchnadoedd gorlawn, ar ochr y cyflenwyr ac ar ochr y galw; ffactorau a allai arwain at sylfaeni cwsmeriaid isel, trosiant busnes isel ac elw bach. Yn ogystal, nodwyd bod yna boblogaeth wledig a oedd yn heneiddio a charfan o berchnogion busnes gwledig a oedd yn heneiddio. Gyda'i gilydd, dadleuwyd bod yr amodau andwyol hyn, llawer ohonynt yn cael eu hystyried yn benodol i ardaloedd gwledig, yn gwaethygu'r problemau a gysylltir â'r hinsawdd economaidd bresennol, sy'n cael ei hystyried yn 'ddirwasgiad' o hyd.

4.3 Sylwadau Terfynol – Y Dirwasgiad a'i effeithiau

Roedd adroddiad busnes 2010 yn cynnwys sylw bod yr hinsawdd economaidd yn dal i fod yn anodd, beth bynnag fo'r dadleuon gwleidyddol a'r manylion technegol ynglŷn â'r term 'dirwasgiad'. Roedd y sefyllfa'n dal i fod yn berthnasol adeg arolwg busnesau gwledig 2013 a ph'un a oedd Cymru a gweddill y DU mewn dirwasgiad yn swyddogol neu beidio, y pwynt pwysig oedd bod perchnogion busnesau'n canfod fod yr economi mewn dirwasgiad, ac wedi bod ers 2008. Yn ogystal, ers 2010 cyflwynwyd ystod o fesurau darbodus gan lywodraeth clymblaid y DU a oedd wedi'u dylunio i wrthwynebu'r dirwasgiad, ac ystyriwyd bod y rhain wedi gwneud amodau ar gyfer busnes yn anoddach fyth. O ganlyniad, dominyddwyd sylwadau ynglŷn â chyflleoedd a bygythiadau i fusnesau gwledig; newid dros y tair blynedd diwethaf; a hefyd y 'sylwadau eraill' y gofynnwyd amdanynt ar yr holiadur, gan sylwadau am yr amodau economaidd andwyol presennol. Gan ystyried yr amodau hyn bydd y sylwadau canlynol i gloi yn defnyddio'r term 'dirwasgiad'.

Mae'n ddefnyddiol bod adroddiad 2013 mewn sefyllfa i edrych yn ôl i 2007 – yn union cyn y dirwasgiad – oherwydd mae hyn yn cynnig golwg gymharol hirdymor. Mae'r data ar gyfer newidiadau mewn arferion busnes yn dangos effeithiau negyddol y dirwasgiad. Er enghraifft, tra roedd y dirywiad serth yn nifer y busnesau a wnaeth ehangu wedi arafu o 16 pwynt canran rhwng 2007 a 2010, aeth i lawr saith pwynt canran ymhellach yn 2013. Roedd llai o fusnesau wedi ehangu eu gweithlu nag yn 2007, a thra bod mwy wedi aros yr un peth, roedd

ychedig mwy wedi crebachu eu gweithlu. Mewn cyferbyniad â chynnydd optimistaidd rhwng 2007 a 2010, roedd cyfran y busnesau a oedd yn bwriadu ehangu yn 2013 wedi cwmpo i chwe phwynt canran yn is na'r lefel yn 2007. Roedd canlyniadau Archebion ac Ymweliadau Cwsmeriaid yn waeth yn 2013 nag yn 2010. Arhosodd lefelau Ymchwil a Datblygu yn isel yn 2013, yn dilyn dirywiad, o lefel nad oedd yn arbennig o uchel, rhwng 2007 a 2010. Yn arolwg 2013, roedd 43 y cant o fusnesau wedi cyflwyno nwyddau a gwasanaethau newydd dros y tair blynedd diwethaf. Roedd hwn yn cadarnhau tuedd tuag i lawr o gymharu â 58 y cant yn 2007 a 54 y cant yn 2010. Parhaodd buddsoddi ac ariannu i fod yn anodd. Fel y trafodwyd yn gynharach, gyda'i gilydd, roedd y canlyniadau hyn yn awgrymu nad oedd yr hinsawdd economaidd yn ffafriol i arloesedd busnesau, ac roedd busnesau yn fwyfwy dueddol o ffafrio'r diogelwch a gynigir gan nwyddau a gwasanaethau sefydledig.

O ran data'r 'llinell isaf', dros y cyfnod 2007 – 2010 – 2013, bu dirywiad yn nifer y busnesau a gynyddodd eu trosiant ac elw, a chynnydd yn nifer y busnesau a nododd lleihad yn y canlyniadau ariannol hyn. Gan gymryd elw fel canran o drosiant, bu cynnydd yng nghyfrannau'r busnesau a nododd colled neu dalu'r costau a llai o elw, a lleihad yn y busnesau a oedd yn gwneud canrannau uchel o elw. Fel yr awgrymir gan y trafodaethau yn yr adroddiad hwn, roedd y data ansoddol o berchnogion busnesau yn tueddu i ategu'r farn besimistaidd hon o ran yr economi a'r amgylchedd busnes yng Nghymru wledig.

Mae'r adroddiad hwn ynglŷn ag arolwg busnesau gwledig Arsyllfa Wledig Cymru 2013 yn gorffen gyda dau sylw. Yn gyntaf, un thema gyson sy'n gyffredin i'r gyfres hon o bedwar arolwg, a ddechreuodd yn 2004, yw parhad ymddangosol economi sgiliau isel, cyflogau isel. Mae tystiolaeth ymchwil sy'n dangos hyn wedi cynnwys cyrhaeddiad addysgol isel; diffyg tybiedig o ymgeiswyr medrus i swyddi; diffyg hyfforddiant busnes; anwybyddu defnyddioldeb cynlluniau busnes; tueddiad tuag at blwyfoldeb o ran gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr; a ffafriaeth i ddefnyddio rhwydweithiau lleol, yn arbennig ar gyfer recriwtio. Fel y dangosir gan dystiolaeth ansoddol yn yr adroddiad hwn, roedd rhai perchnogion busnesau yn ystyried y fath hon o amgylchedd busnes yn fuddiol, ond roedd eraill yn awgrymu ei bod yn broblemus. Ond mae hwn yn codi'r cwestiwn: i ba raddau mae economi Cymru wledig wedi'i gefnogi gan nodweddion yr economi sgiliau isel a chyflogau isel, ac i ba raddau cafodd ei danseilio ganddynt? Er y gellid dadlau nad oes gan fusnesau mewn lleoliadau gwledig fawr o ddewis ond gweithredu mewn economi cyflogau isel wedi'i ffocysu ar anghenion gweithwyr, cwsmeriaid a busnesau lleol, ni ddylai hyn eithrio'r posibilrwydd o gynhyrchu mentrau busnes newydd wedi'u datblygu drwy fuddsoddi mewn cynlluniau busnes, datblygiad proffesiynol arweinwyr busnes a staff proffesiynol, a rhoi gwerth mwy ar addysg. Yn ddadleuol, dylai fod yna fudd economaidd hirdymor yn deillio o weithlu gwledig sydd â gwell cymwysterau a hyfforddiant, ac sy'n gweithredu mewn amgylchedd busnes effeithlon sydd wedi'i reoleiddio'n dda. Mae angen mwy o ymchwil ar hyn, yn enwedig o ystyried yr ehangu o sylfaeni cwsmeriaid a chyflenwyr a nodwyd gan rai o'r busnesau a samplwyd.

Yn ail, yn y cyfnod a gwmpaswyd gan y pedwar arolwg hyn gwelwyd pwysigrwydd y Rhyngwrwd, yn y gymdeithas ac yn fwy cyffredinol fel offer busnes, yn cynyddu. Fel y sylwyd yn adroddiad 2010, roedd rhai busnesau'n ystyried y Rhyngwrwd yn fuddiol, tra roedd eraill yn ei hystyried yn broblem, oherwydd naill ai roedd eu cystadleuwyr yn gallu defnyddio'r Rhyngwrwd er mwyn lleihau costau neu ni lwyddodd y busnesau i fanteisio'n llawn ar ei botensial, yn aml oherwydd darpariaeth band eang annigonol. Mae data arolwg 2013 yn dangos nad yw'r sefyllfa hon wedi'i datrys oherwydd nid yw mynediad at y Rhyngwrwd wedi cyrraedd ei botensial llawn o ganlyniad i ddiffygion parhaus o ran darpariaeth band eang. Tra na fydd mynediad at fand eang a'r Rhyngwrwd yn datrys holl broblemau'r economi

gwledig, mae tystiolaeth yn awgrymu y byddai'n cyflawni llawer o ran mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae tystiolaeth a drafodir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod busnesau yn defnyddio'r Rhyngwrdd er mwyn ehangu eu sylfaeni cwsmeriaid a'u sylfaeni cyflenwyr, ac ar gyfer recriwtio a hysbysebu. Yn gyffredinol, ymddengys fod busnesau gwledig Cymru yn ennill arbenigedd a phrofiad ac mae rhywfaint o aeddfedrwydd yn eu defnydd o TGCh at ddibenion busnes. Mae hyn i gyd yn awgrymu, er gwaethaf y dirwasgiad, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd yna arwyddion cadarnhaol fod yr hinsawdd economaidd yn gwella, y dylid canolbwyntio mwy ar wella darpariaeth band eang a chynnal y gwasanaeth band eang er mwyn cynorthwyo busnesau yng Nghymru wledig i gyflawni eu potensial.